Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldebau ar gyfer y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd

| | |
|---|---|
| **Enw'r Polisi** | Strategaeth Troseddwyr Benywaidd |
| **Prif Swyddogion Polisi** | Madeleine Percival a Catherine Pearson |
| **Dyddiad dechrau** | Tachwedd 2016 |

**Cyflwyniad**

1. Yn adroddiad Corston: *A Review of Women with Particular Vulnerabilities in the Criminal Justice System* (2007), nodwyd "Women have been marginalised within a system largely designed by men for men for far too long and there is a need [ ] to ensure that their needs are properly recognised and met".

2. Roedd y Papur Gwyn ar Ddiogelwch Carchardai a'u Diwygio a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2016 yn cynnwys ymrwymiad i gyhoeddi strategaeth ar gyfer troseddwyr benywaidd yn y gymuned a'r ddalfa, ac roedd maniffesto'r Ceidwadwyr yn 2017 yn cynnwys ymrwymiad i gyflwyno "dedicated provision for women offenders".

3. Mae'r ddogfen hon yn ddatganiad am y modd y mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi rhoi 'sylw dyledus' i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) wrth lunio a datblygu'r Strategaeth Troseddwyr Benywaidd.

4. Mae PSED yn ddyletswydd gyfreithiol sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi sylw dyledus i bob un o'r canlynol wrth ddyfeisio polisïau neu gyflawni eu swyddogaethau fel arall:
   - Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon a mathau eraill o ymddygiad sydd wedi'u gwahardd gan y Ddeddf.
   - Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad ydynt.
   - Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig o'r fath a'r rheini nad ydynt.

**Disgrifiad byr o'r cynnyrch arfaethedig. Beth yw'r amcan(ion) cydraddoldeb lefel uchel (cyfleoedd cadarnhaol) sy'n gysylltiedig â'ch cynnyrch? Sut byddwch yn sicrhau bod eich prosiect yn gynhwysol i bawb y mae'n effeithio arnynt? Beth yw'r risgiau, yn cynnwys risg o duedd?**

5. Mae'r strategaeth troseddwyr benywaidd yn egluro nod y Llywodraeth o leihau troseddu a gweld llai o fenywod yn mynd i'r system gyfiawnder, yn mynd i'r ddalfa, ac yn aildroseddu. Mae'n ceisio creu system gyfiawnder sydd wedi'i seilio ar y dystiolaeth orau

sydd ar gael am yr hyn sy'n llwyddo i leihau troseddu ac aildroseddu, yn ymateb mewn ffordd seiliedig ar rywedd i anghenion penodol menywod ar bob pwynt yn y system, yn cydnabod eu bod yn aml wedi dioddef cam-drin, ac yn cynnig dulliau unigol cyfannol o'u cynorthwyo i drawsnewid eu bywyd.

6. Bydd effeithiau ein strategaeth ar droseddwyr benywaidd yn cynnwys:

- Gwell Ymyrraeth Gynnar ar gyfer menywod sy'n agored i niwed sydd mewn perygl o droseddu, i'w cyfeirio oddi wrth y system cyfiawnder troseddol ac at driniaeth a chymorth lle y bo'n briodol;
- Cynyddu nifer y menywod a gaiff eu dargyfeirio oddi wrth y ddalfa drwy wella darpariaeth i fenywod yn y gymuned;
- Gwella'r amodau a'r canlyniadau i'r rheini sydd yn y ddalfa;
- Arweinyddiaeth ar lefel genedlaethol sy'n grymuso ardaloedd lleol i gyflwyno dulliau cyfannol a seiliedig ar rywedd ar gyfer y cohort hwn;

7. Mae'r strategaeth troseddwyr benywaidd yn caniatáu i ni hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng troseddwyr gwrywaidd a benywaidd drwy ddiwygio'n systematig y modd y mae troseddwyr benywaidd yn cael eu trin ym mhob rhan o'r system cyfiawnder troseddol a'r tu allan iddi. Mae'r strategaeth wedi'i seilio ar dystiolaeth bod dull seiliedig ar rywedd sy'n delio ag achosion troseddu gan fenywod, yn cynnwys cam-drin a thrawma blaenorol, yn fwy effeithiol na dull niwtral o ran rhywedd wrth adsefydlu troseddwyr benywaidd ac ymdrin â'u hanghenion sydd yn aml yn gymhleth[1]. Credwn fod y dystiolaeth yn dangos bod y strategaeth hon yn ffordd gymesur i gyrraedd y nod dilys o leihau anfanteision penodol a brofir gan y boblogaeth o oedolion benywaidd sy'n droseddwyr.

**Y camau cyntaf: Nodi pa bryd yn ystod y prosiect y byddwch yn ystyried, yn cynllunio ac yn trafod y cyfleoedd cyfartal sy'n gysylltiedig â'ch cynnyrch arfaethedig.**

| | Dyddiad Allweddol |
|---|---|
| Bwrdd Cynghorol ar Droseddwyr Benywaidd | Chwarterol |
| Dau Gais am Dystiolaeth | Mis Mai a mis Tachwedd 2017 |
| Ymgysylltu â'r Ystad Menywod | Mis Hydref 2017 |
| Ymgysylltu â'r ardaloedd Dull System Gyfan (WSA) a ariannwyd gan Y Weinyddiaeth Cyfiawnder | Tachwedd 2017 – Mehefin 2018 |
| Gweithio i ystyried anghenion penodol menywod Duon, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig yn y system cyfiawnder troseddol | Ionawr – Rhagfyr 2018 |
| Ymgysylltu ag Adrannau Llywodraeth eraill | Rhagfyr 2017 – Mehefin 2018 |
| Ymgysylltu â'r Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ar Droseddwyr Benywaidd fel dioddefwyr cam-drin domestig | Mawrth – Gorffennaf 2018 |

[1] Er enghraifft, Gobeil, R., Blanchette, K., a Stewart, L. (2016). A Meta-Analytic Review of Correctional Interventions for Women Offenders: Gender-Neutral Versus Gender-Informed Approaches.

| | |
|---|---|
| Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol drwy gyfarfod bord gron ar anghyfartaledd rhwng y rhywiau mewn erlyniadau Trwyddedu Teledu | Mai – Rhagfyr 2018 |
| Gweithdy ar y Strategaeth gyda rhanddeiliaid allweddol o'r system cyfiawnder troseddol, y sector statudol a'r trydydd sector | Mehefin 2018 |

**Cofnod cyfredol: Dyddiadau allweddol pan ystyriwyd cydraddoldeb ac y cymerwyd camau o ganlyniad**[i]

| Cyd-destun: | Dyddiad: | Cam Gweithredu / Perchennog: |
|---|---|---|
| Bwrdd Cynghorol ar Droseddwyr Benywaidd | Sefydlwyd yn 2013 a chyfarfodydd chwarterol ers hynny | **Y Weinyddiaeth Cyfiawnder** i ystyried sut mae gwahanol drafodaethau gan y Bwrdd Cynghorol ar Droseddwyr Benywaidd yn gallu effeithio ar gydraddoldeb yng nghyswllt polisi ar droseddwyr benywaidd a chynnwys hyn yng nghyfeiriad ein Strategaeth |
| Dau gais ar wahân am dystiolaeth gan randdeiliaid allweddol ar y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd | Mis Mai a mis Tachwedd 2017 | **Y Weinyddiaeth Cyfiawnder** i ystyried y manylion ysgrifenedig gan randdeiliaid allweddol ar gyfeiriad ein Strategaeth a'r effeithiau ar gydraddoldebau a nodwyd yma |

| Cyd-destun: | Dyddiad: |
|---|---|
| Digwyddiad ymgysylltu yng Ngharchar East Sutton Park<br>Digwyddiad ymgysylltu yng Ngharchar Downview | Mis Hydref 2017<br>Cam Gweithredu / Perchennog:<br>**Y Weinyddiaeth Cyfiawnder** i gynnwys gwybodaeth o'r rheng flaen yn yr ystad menywod a dealltwriaeth o gydraddoldeb wrth ddrafftio ein Strategaeth |
| Gweithdy gydag ardaloedd Dull System Gyfan a ariannwyd gan Y Weinyddiaeth Cyfiawnder am gynllunio strategol a dulliau cyflawni eu ffyrdd o weithredu | Tachwedd 2017<br>Cam Gweithredu / Perchennog:<br>**Y Weinyddiaeth Cyfiawnder** i gynnwys gwybodaeth o'r rheng flaen a dealltwriaeth o gydraddoldeb wrth ddrafftio ein Strategaeth |

| Cyd-destun: | Dyddiad: |
|---|---|
| Cyfarfod bord gron ar fenywod Duon, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig yn y system cyfiawnder troseddol | 29 Ionawr 2018<br>Cam Gweithredu / Perchennog:<br>**Y Weinyddiaeth Cyfiawnder** i gynnwys anghenion penodol menywod Duon, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig yn themâu allweddol y Strategaeth mewn drafft diwygiedig ac mewn gwaith cyfathrebu a chyhoeddusrwydd ehangach sy'n gysylltiedig â hi |

| Cyd-destun: | Dyddiad: |
|---|---|
| Cyfarfod o'r gweithgor ar yr adolygiad o PSO 4800 i drafod y Fframwaith Polisi Menywod i'w lansio ar gyfer ymgynghori ag Undebau Llafur ochr yn ochr â'r Strategaeth | 16 Mawrth 2018<br>31 Mai 2018<br>Cam Gweithredu / Perchennog:<br>**Y Weinyddiaeth Cyfiawnder** i gynnwys sylwadau am gydraddoldeb gan gydweithwyr ar draws Y Weinyddiaeth Cyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yn y fframwaith a fydd yn rhoi canllawiau cyffredinol i ymarferwyr sy'n gweithio gyda menywod yn y system cyfiawnder troseddol |

| Cyd-destun: | Dyddiad: | Cam Gweithredu / Perchennog: |
|---|---|---|
| Cyfarfod bord gron gyda Dr Phillip Lee a rhanddeiliaid allweddol ar gyfer troseddwyr benywaidd sydd wedi profi cam-drin domestig | 15 Mai 2018 | **Y Weinyddiaeth Cyfiawnder** i gynnwys y pwnc hwn a dealltwriaeth o'r effeithiau o themâu allweddol ein Strategaeth ar gydraddoldeb mewn drafft diwygiedig ac mewn gwaith cyfathrebu a chyhoeddusrwydd ehangach sy'n gysylltiedig â hi |
| Cyfarfod bord gron gyda rhanddeiliaid allweddol ar erlyn am efadu Trwyddedu Teledu a'i effaith anghymesur ar droseddwyr benywaidd | 18 Mai 2018 | **Y Weinyddiaeth Cyfiawnder** i gynnwys y pwnc hwn a dealltwriaeth o'r effeithiau o themâu allweddol ein Strategaeth ar gydraddoldeb mewn drafft diwygiedig ac mewn gwaith cyfathrebu a chyhoeddusrwydd ehangach sy'n gysylltiedig â hi |
| Y Bwrdd Arwain Troseddwyr Benywaidd ac Adrannau Llywodraeth eraill i drafod themâu allweddol ein strategaeth ddrafft | 4 Mehefin 2018 | **Y Weinyddiaeth Cyfiawnder** i gynnwys dealltwriaeth Adrannau Llywodraeth eraill o'r effeithiau o themâu allweddol ein Strategaeth ar gydraddoldeb mewn drafft diwygiedig ac mewn gwaith cyfathrebu a chyhoeddusrwydd ehangach sy'n gysylltiedig â hi |

| Cyd-destun: | Dyddiad: |
|---|---|
| | 6 Mehefin 2018 |
| Gweithdy dan arweiniad swyddogion gydag aelodau’r Bwrdd Cynghorol ar Droseddwyr Benywaidd i gynnwys rhanddeiliaid mewn trafodaeth am themâu allweddol ein strategaeth ddrafft | Cam Gweithredu / Perchennog: |
| | **Y Weinyddiaeth Cyfiawnder** i gynnwys dealltwriaeth rhanddeiliaid o’r effeithiau o themâu allweddol ein Strategaeth ar gydraddoldeb mewn drafft diwygiedig ac mewn gwaith cyfathrebu a chyhoeddusrwydd ehangach sy’n gysylltiedig â hi |

| Cyd-destun: | Dyddiad: |
|---|---|
| | Yr wythnos yn dechrau 11 Mehefin 2018 |
| Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru | Cam Gweithredu / Perchennog: |
| | **Y Weinyddiaeth Cyfiawnder** i gynnwys persbectif Cymreig a’r effeithiau ar gydraddoldeb yng Nghymru mewn drafft diwygiedig o’n strategaeth ac mewn gwaith cyfathrebu a chyhoeddusrwydd ehangach sy’n gysylltiedig ag ef |

**Tystiolaeth a Dadansoddi sy’n ymwneud â throseddwyr benywaidd:**

8. Mae troseddwyr benywaidd 18 oed ac yn hŷn wedi’u tangynrychioli yn y system cyfiawnder troseddol. Er bod hanner y boblogaeth gyffredinol o oedolion yn fenywod, ar 22 Mehefin 2018 roedd 3,850 o oedolion benywaidd yn y carchar, sef dim ond 4.6% o’r boblogaeth gyfan mewn carchardai[2].

9. Mae’r math o droseddu a gyflawnir gan droseddwyr benywaidd 18 oed ac yn hŷn yn wahanol i’r hyn a gyflawnir gan oedolion gwrywaidd. Ar gyfartaledd, mae menywod yn cwblhau dedfrydau byr o garchar am droseddau di-drais[3], maent yn peri risg isel neu ganolig o achosi niwed difrifol i’r cyhoedd[4], ond maent yn droseddwyr cyson, lefel isel[5]. Yn 2017, hyd cyfartalog y dedfrydau o garchar oedd 10.0 mis ar gyfer oedolion benywaidd ac 17.7 mis ar gyfer oedolion gwrywaidd[6]. Roedd 72% o’r dedfrydau o garchar i fenywod yn chwe mis neu lai, o’i gymharu â 56% i ddynion[7]. Mae mwyafrif (94%) y menywod sy’n

[2] https://www.gov.uk/government/statistics/prison-population-figures-2018
[3] https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-system-statistics-quarterly-december-2017
[4] Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Supporting data tables: Female offender strategy. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy
[5] https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-system-statistics-quarterly-december-2017
[6] Ibid.
[7] Ibid.

cwblhau dedfryd o garchar o lai na 12 mis sydd wedi cael asesiad yn peri Risg isel neu ganolig o achosi Niwed Difrifol[8].

10. Mae menywod yn cyflawni troseddau llai difrifol na dynion[9] ac mae cyfran fwy o ddiffynyddion benywaidd yn cael eu herlyn gan gyrff heblaw'r heddlu[10]. Yn 2017, roedd 36% o'r dedfrydau o garchar a roddwyd ar unwaith i fenywod yn rhai am droseddau siop-ladrad, o'i gymharu â 12% ar gyfer dynion, a hyd cyfartalog y ddedfryd o garchar oedd 1.7 mis[11]. Cafodd 11% o fenywod a 23% o ddynion eu dedfrydu am droseddau ditiol/neillffordd[12]. O'r rhain, am siop-ladrad y rhoddwyd 43% o'r holl ddedfrydau am droseddau ditiol/neillffordd gan droseddwyr benywaidd a 19% ar gyfer troseddwyr gwrywaidd.

11. Mae canlyniadau i fenywod yn y ddalfa yn wael yn gyffredinol, iddyn nhw eu hunain ac i'w teuluoedd. Tra byddant yn y ddalfa, mae menywod yn fwy tebygol o'u niweidio eu hunain nag y mae dynion. Yn 2017, roedd 19% o'r digwyddiadau hunan-niweidio wedi'u cyflawni gan fenywod[13], er eu bod oddeutu 5% o'r boblogaeth gyfan mewn carchardai.

12. Mae carcharu mamau hefyd yn arwain at ganlyniadau gwael i blant. Mewn arolygon o garcharorion a gynhaliwyd yn 2003 a 2004, roedd cyfran fwy o famau a garcharwyd wedi dweud eu bod yn byw gyda'u plant cyn eu carcharu na thadau a garcharwyd (~60% vs. ~45%)[14]. Mae tystiolaeth o'r arolygon hyn hefyd yn awgrymu bod carcharu mamau yn cael mwy o effaith ar drefniadau byw plant dibynnol nag y mae carcharu tadau. Mae gwaith ymchwil arall yn ategu hyn, ac mae un astudiaeth yn awgrymu mai dim ond 5% o blant carcharorion benywaidd sy'n aros yn eu cartref ar ôl dedfrydu eu mam[15]. Mae tystiolaeth o wledydd tramor wedi dangos bod plant i rieni a garcharwyd mewn mwy o berygl o ymddwyn yn wrthgymdeithasol ac yn droseddol[16].

13. Credir bod y canlyniadau uniongyrchol i fenywod ar ôl eu rhyddhau o'r carchar yn wael at ei gilydd. Roedd mwy na hanner yr oedolion benywaidd (56.1%) a bron hanner yr oedolion gwrywaidd (47.3%) a ryddhawyd o'r ddalfa rhwng Ebrill a Mehefin 2016 wedi aildroseddu o fewn blwyddyn[17].

14. Roedd Deddf Adsefydlu Troseddwyr (DAT) 2014 wedi ehangu goruchwyliaeth o dan drwydded fel y bydd pawb a gafodd ddedfryd o fwy na diwrnod mewn carchar yn cael eu goruchwylio am o leiaf 12 mis ar ôl eu rhyddhau. Yn 2017, cafodd 1,651 o fenywod eu galw'n ôl i'r carchar ac roedd 60% (986 o fenywod) wedi'u galw'n ôl o dan DAT, o'i gymharu â 39% o ddynion[18]. Methu â chadw mewn cysylltiad a diffyg cydymffurfio yw'r rhesymau mwyaf cyffredin am alw menywod yn ôl[19].

---

8 Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Supporting data tables: Female offender strategy. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy

9 https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-system-statistics-quarterly-december-2017

10 Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Supporting data tables: Female offender strategy. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy

11 https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-system-statistics-quarterly-december-2017

12 Ibid.

13 https://www.gov.uk/government/statistics/safety-in-custody-quarterly-update-to-december-2017

14 https://www.gov.uk/government/publications/prisoners-childhood-and-family-backgrounds

15 Rona Epstein (2012) Mothers in Prison.

16 Murray, Farrington, Sekol (2012) Children's Antisocial Behavior, Mental Health, Drug Use and Educational Performance After Incarceration: A Systematic Review and Meta-Analysis. Psychological Bulletin 2012. Cyfrol 138. Rhif 2, 175-210

17 Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Supporting data tables: Female offender strategy. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy

18 https://www.gov.uk/government/statistics/offender-management-statistics-quarterly-october-to-december-2017

19 Ibid.

15. Mae canlyniadau o ran llety a chyflogaeth yn neilltuol o wael i fenywod sy’n gadael y ddalfa. Rhwng Ebrill a diwedd Rhagfyr 2017, roedd 39% o fenywod a ddyrannwyd i Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol ac i’r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi’u rhyddhau i lety ansefydlog, ac roedd 18% o fenywod wedi’u rhyddhau’n ddigartref [20] ac roedd ychydig llai na dwy ran o dair o’r menywod a ryddhawyd o’r carchar yn 2010/11 yn hawlio budd-daliadau i’r di-waith un mis ar ôl eu rhyddhau, o’i gymharu ag ychydig mwy na hanner y dynion[21]. Roedd adroddiad a gyhoeddwyd ar y cyd yn 2016 gan Arolygiaeth Prawf EM ac Arolygiaeth Carchardai EM am wasanaethau ailsefydlu Drwy’r Gât i garcharorion a gafodd ddedfryd fyr yn feirniadol o’r cymorth llety a ddarparwyd i garcharorion.[22] Er bod rhywfaint o waith da wedi’i weld mewn perthynas â chadw tenantiaethau blaenorol, roedd angen cymorth ar y rhan fwyaf o’r rhai a oedd yn gadael carchar i ddod o hyd i rywle i fyw ar ôl eu rhyddhau – ac nid oedd digon yn cael ei wneud i ymdrin â’r anghenion hyn.

16. Ar sail y dystiolaeth, rydym wedi nodi nifer o anfanteision a brofir ac anghenion sy’n arbennig o gyffredin ymysg oedolion benywaidd sy’n droseddwyr. Rydym hefyd yn gwybod bod tystiolaeth sy’n dangos bod dull seiliedig ar rywedd o ddelio ag achosion troseddu gan fenywod, yn cynnwys cam-drin a thrawma blaenorol, yn fwy effeithiol na dull niwtral o ran rhywedd wrth adsefydlu troseddwyr benywaidd ac ymdrin â’u hanghenion sydd yn aml yn gymhleth[23].

17. Felly credwn ein bod yn cwrdd â gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus drwy ddatblygu Strategaeth Troseddwyr Benywaidd. Mae’r strategaeth a’r gwaith sy’n gysylltiedig â hi yn hyrwyddo’r nod polisi o leihau troseddu ac aildroseddu gan fenywod, gan ddod â budd i’r menywod eu hunain ac i gymdeithas ehangach.

18. Mae’r strategaeth yn ffordd gymesur i gyflawni’r nod o alluogi ac annog y troseddwyr hyn i drechu’r anfanteision a wynebir gan fenywod yn y system cyfiawnder troseddol ac o gwrdd ag anghenion cymhleth troseddwyr benywaidd.

19. Mae’r angen am strategaeth ar gyfer troseddwyr benywaidd wedi’i ategu ymhellach gan bapur ymchwil a gyhoeddwyd gan Ysgol Economeg Llundain ar ‘Confronting Gender Inequality’ sy’n datgan:

    *“Successive reports over many years have drawn attention to the plight of women in the criminal justice system, where their relatively small numbers have led to special disadvantages – notably in terms of the likelihood of being imprisoned far from home, of being separated from children for whom they are primary carer, or of serving their sentence in a prison which is unsuitable or inadequate in terms of training, medical or mental health services. In particular, both sentencing decisions and the design of prison regimes should take into account the high proportion of women offenders who are themselves the victims of violence, trafficking, emotional abuse and other forms of gendered disadvantage.”* [24]

20. Ar sail y dystiolaeth am nifer o ganlyniadau gwaeth i fenywod yn y system cyfiawnder troseddol o’u cymharu â dynion a’r anfanteision penodol a brofir gan oedolion benywaidd sy’n droseddwyr, credwn fod y strategaeth yn fodd i hyrwyddo cyfle cyfartal ar gyfer menywod yn y system cyfiawnder troseddol. Bydd Y Weinyddiaeth Cyfiawnder a

[20] Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Supporting data tables: Female offender strategy. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy

[21] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/380090/women-cjs-2013.pdf

[22] https://www.justiceinspectorates.gov.uk/cjji/wp-content/uploads/sites/2/2016/09/Through-the-Gate.pdf

[23] Er enghraifft, Gobeil, R., Blanchette, K., a Stewart, L. (2016). A Meta-Analytic Review of Correctional Interventions for Women Offenders: Gender-Neutral Versus Gender-Informed Approaches.

[24] http://www.academia.edu/19577107/Confronting_Gender_Inequality_LSE_Research_Paper

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yn parhau i hyrwyddo cyfle cyfartal i droseddwyr gwrywaidd, drwy gwrdd â’u hanghenion gwahanol a chymryd camau i liniaru unrhyw fantais y gallant ei hwynebu.

**Ffynonellau Tystiolaeth:**

21. Wrth asesu effeithiau dichonol y strategaeth ar gydraddoldeb, rydym wedi defnyddio’r ffynonellau tystiolaeth allweddol a ganlyn:

    a. Data Ystadegau Cyfiawnder Troseddol (Cymru a Lloegr) sy’n darparu ystadegau allweddol ar weithgarwch yn y system cyfiawnder troseddol ar gyfer Cymru a Lloegr ac yn cynnwys data am nodweddion gwarchodedig, lle maent ar gael. Gwnaed cymariaethau â data am y boblogaeth a data am droseddwyr gwrywaidd.

    b. Cafwyd data am droseddwyr sy’n dechrau cwblhau gorchmynion cymunedol neu orchmynion dedfryd ohiriedig, neu ddedfryd o garchar o Ystadegau Rheoli Troseddwyr (Cymru a Lloegr). Defnyddiwyd y data hyn i asesu a yw rhai troseddwyr (yng nghyd-destun nodweddion gwarchodedig) yn fwy tebygol o brofi effaith o’r strategaeth.

    c. *Statistics on Women and the Criminal Justice System* (2015) lle cesglir ystadegau o ffynonellau data ar draws y System Cyfiawnder Troseddol i gynnig persbectif cyfunol ar brofiadau nodweddiadol menywod sy’n dod i gysylltiad â hi.

    d. *NOMS Annual Offender Equalities Report* sy’n cynnwys manylion am y rheini sydd yn y carchar, a’r rheini sydd ar drwyddedau neu orchmynion cymunedol, gan ymdrin â phynciau sy’n cynnwys diogelwch yn y ddalfa, diengyd, Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro (ROTL), dyfarniadau, Cymhellion a Breintiau a Enillwyd (IEP), marwolaethau o dan oruchwyliaeth, y rheini sy’n cael eu monitro drwy ddulliau electronig a Chyrffyw Cyfyngu i’r Cartref, ac aildroseddu yn ôl nodweddion gwarchodedig.

    e. Canllaw NOMS *Achieving Better Outcomes for Women Offenders* (Medi 2015) sy’n gwneud defnydd o’r dystiolaeth orau sydd ar gael am yr hyn sy’n llwyddo er mwyn pennu egwyddorion ar gyfer comisiynu gwasanaethau i droseddwyr benywaidd sy’n 18 oed ac yn hŷn.

    f. Canlyniadau o astudiaeth cohort hydredol yr Arolwg o Leihau Troseddu Carcharorion (SPCR) o oedolion a ddedfrydwyd i’r carchar am gyfnod o un mis i bedair blynedd yn 2005 a 2006, a oedd yn casglu data am nifer o wahanol ffactorau sy’n berthnasol i droseddwyr.

    g. Data o’r System Asesu Troseddwyr (OASys). Mae OASys yn offeryn strwythuredig ar gyfer asesu a rheoli risg sy’n cyfeirio ac yn cynorthwyo rheolwyr / goruchwylwyr troseddwyr i asesu a rheoli risgiau ac anghenion troseddwyr ac addasu’r dull o ddarparu ymyriadau i ymateb i amgylchiadau’r troseddwr. Defnyddir OASys drwy gydol y ddedfryd: bydd yr asesiad OASys cyntaf yn cael ei wneud yn gynnar yn ystod y ddedfryd ac yn cael ei adolygu yn ôl hyd y ddedfryd a’r math o droseddwr. Ni fydd pob troseddwr yn cael asesiad OASys.

22. Mae cyfyngiadau i’r ffynonellau data a ddefnyddir. Mae’r dadansoddiad o gydraddoldebau a geir yma yn ystyried cyfyngiadau cymharol pob un o’r ffynonellau data o ran y graddau y gellir dibynnu ar y casgliadau am yr effeithiau dichonol ar gydraddoldeb.

23. Y rhain yw:

    a. Yn yr un modd â nifer o setiau data gweinyddol, mae ansawdd y data yn dibynnu ar raddau’r data coll. Nid yw cyfraddau cwblhau uchel wedi’u cofnodi ar gyfer nifer o gategorïau (oed, statws anabledd, statws ailbennu rhywedd, hil, crefydd, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol/partneriaeth sifil).

b. Roedd SPCR yn arolwg a gynhaliwyd wyneb yn wyneb â throseddwyr a oedd yn y ddalfa yng Nghymru a Lloegr yn 2005/06. Holwyd ymatebwyr am amrywiaeth o feysydd a oedd yn cynnwys: eu cefndir a’u teulu, eu hanes o droseddu, eu cyflawniadau addysgol a statws cyflogaeth, eu hagweddau meddwl a’u hanghenion, a’u cynlluniau a disgwyliadau ar ôl eu rhyddhau o’r carchar. Gan fod y ffigurau’n dyddio o 2005/06, mae’n bosibl na fydd canlyniadau’n gynrychiadol o boblogaeth y carchardai heddiw.

c. Ni fydd pob troseddwr yn cael asesiad OASys, felly mae’n bosibl na fydd data yn gynrychiadol o holl boblogaeth y carchardai.

Oherwydd y bylchau hyn mewn data, nid ydym wedi cyflwyno darlun cynhwysfawr mewn perthynas â’r holl nodweddion gwarchodedig.

**Rhowch grynodeb o’r ffyrdd cyffredinol rydych wedi gwreiddio cydraddoldeb a chynhwysiant yn eich cynnyrch er mwyn sicrhau ei fod yn addas neu mor berthnasol â phosibl. Bydd hyn yn cynnwys sut rydych wedi delio â’r posibilrwydd o duedd:**

24. Mae nifer o gamau yn yr arfaeth neu wedi’u cymryd eisoes i sicrhau bod y cyfeiriad polisi newydd yn cymryd cydraddoldeb i ystyriaeth ar bob cam – o’r cysyniad gwreiddiol hyd at ei gwblhau.

25. Rydym wedi gwneud defnydd o dystiolaeth o’r ffynonellau a nodwyd uchod, yn ogystal ag adroddiadau gan Arolygiaeth Carchardai EM, Adolygiad Corston o Fenywod sy’n Agored i Niwed mewn Ffyrdd Penodol yn y System Cyfiawnder Troseddol (adroddiad Corston 2007), yr Adolygiad o’r Ystad Carchardai i Fenywod (2013) ac wedi ystyried canfyddiadau o Adolygiad Lammy (2017).

26. Mae’r Bwrdd Cynghorol ar Droseddwyr Benywaidd (ABFO) wedi trafod y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd ar wahanol gamau yn ei datblygiad. Mae’r Bwrdd, sy’n cael ei gadeirio gan y Gweinidog dros fenywod yn y system cyfiawnder troseddol, yn cynnwys cynrychiolwyr cyfiawnder troseddol, darparwyr y sector gwirfoddol, cynrychiolwyr arolygiaethau, sefydliadau allanol ar gyfer diwygio cosbol ac arbenigwyr eraill yn y maes, yn ogystal ag Adrannau Llywodraeth. Ei rôl yw cynnig cymorth a her i’r Llywodraeth a swyddogion wrth wella’r driniaeth a’r adsefydlu ar gyfer troseddwyr benywaidd. Mae’r Bwrdd wedi rhoi cyngor hefyd ar ystyriaethau cydraddoldeb ar gyfer y strategaeth, gan roi sylw’n benodol i droseddwyr benywaidd â nodweddion gwarchodedig.

27. Cafwyd cais am dystiolaeth ym Mawrth 2017 er mwyn cael cymorth i ddatblygu’r strategaeth, ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a gwirio ystyr tystiolaeth ac egwyddorion. Anfonwyd ceisiadau i aelodau’r Bwrdd Cynghorol ar Droseddwyr Benywaidd a darparwyr y sector gwirfoddol sy’n aelodau cyswllt o Clinks, sefydliad ambarél i wasanaethau sector gwirfoddol sy’n cynorthwyo troseddwyr.

28. Cafwyd ymatebion i’r cais am dystiolaeth gan 14 o sefydliadau a oedd yn cynnwys ymatebion i bum cwestiwn allweddol i gael rhagor o wybodaeth ar gyfer datblygu’r strategaeth a thynnu sylw at unrhyw bryder neu anghytundeb â’n cynigion cyntaf ar gyfer y strategaeth. Dadansoddwyd yr ymatebion ac roedd unrhyw argymhellion wedi’u hystyried mewn ffordd briodol a’u trafod ymhellach.

29. Ar 6 Mehefin 2018, roedd swyddogion wedi arwain gweithdy gydag aelodau’r Bwrdd Cynghorol ar Droseddwyr Benywaidd lle amlinellwyd gweledigaeth a chyfeiriad y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd a thynnu sylw at negeseuon allweddol gan Y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Roedd y Bwrdd wedi darparu adborth adeiladol ar agweddau manwl ar y strategaeth ac wedi ehangu ein trafodaethau ar ystyriaethau o ran

cydraddoldeb a darpariaethau a wnaed yn y strategaeth ar gyfer troseddwyr benywaidd â nodweddion gwarchodedig.

30. Rydym wedi cynnal a byddwn yn parhau i gynnal cyfarfodydd bord gron, gweithdai a chyfleoedd eraill i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol sy'n cynrychioli staff, adrannau llywodraeth eraill, grwpiau cynrychiadol carcharorion ac amrywiaeth o sefydliadau trydydd sector sy'n cynorthwyo troseddwyr benywaidd. Mae'r cyfleoedd hyn i ymgysylltu yn rhoi sylw i bynciau fel meysydd rhywedd-benodol yn y system cyfiawnder troseddol fel Canolfannau Menywod a throseddau sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod fel efadu ffi'r drwydded deledu[25]. Rhoddir ystyriaeth hefyd drwy'r cyfleoedd hyn i'r ffyrdd gwahanol y mae'r meysydd hyn yn effeithio ar is-rannau o'r cohort troseddwyr benywaidd, sut y gallwn ddeall hyn a'i gynnwys yn ein strategaeth.

31. Rydym wedi ymgynghori a byddwn yn parhau i ymgynghori â grŵp o Farnwyr ac Ynadon ar ffyrdd i ddedfrydu menywod er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'u proses penderfynu a gwybodaeth ar gyfer ein strategaeth mewn perthynas â defnyddio dedfrydau cymunedol ar gyfer troseddwyr benywaidd yn hytrach na dedfrydau byr o garchar lle y bo'n briodol.

32. Rydym wedi cwrdd ag academwyr sydd wedi cynnal ymchwil gynhwysfawr ar droseddwyr benywaidd a'u hanghenion cymhleth. Maent wedi darparu argymhellion i ni ar y modd y dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ddatblygu'r strategaeth er mwyn cael gwell ffyrdd i ddiwallu'r anghenion cymhleth sydd gan droseddwyr benywaidd a delio â'r materion sylfaenol sy'n arwain at eu troseddu ac aildroseddu.

33. Rydym wedi cynnal digwyddiadau i gyfrannu at ddatblygu Dull System Gyfan o ymdrin â throseddwyr benywaidd yn ein strategaeth a deall yr arferion gorau er mwyn cynorthwyo ardaloedd lleol y mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi dyrannu cyllid iddynt i ddatblygu model Dull System Gyfan. Cynhaliwyd digwyddiad cyn dyrannu cyllid i drafod egwyddorion Dull System Gyfan a'r cyfle i ddatblygu modelau ledled Lloegr. Roedd cynrychiolwyr yn y digwyddiad o'r heddlu a Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd; y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol; carchardai; Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol; swyddogion arweiniol ar Iechyd a Chyfiawnder yn y GIG; awdurdodau lleol; gwasanaethau cymunedol menywod; swyddogion o Rwydwaith Trawsnewid Gwasanaethau Cyhoeddus Y Weinyddiaeth Cyfiawnder/Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Gweinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG); ac aelodau o'r Bwrdd Cynghorol ar Droseddwyr Benywaidd.

34. Rydym yn parhau i gynnal gweithdai gyda'r ardaloedd lleol a gafodd gyllid ac wedi sefydlu safle Slack i rannu arferion da a dysgu o fodelau Dull System Gyfan blaenorol. Rydym wedi cynhyrchu templed data i'w lenwi'n rheolaidd gan ardaloedd lleol a gafodd gyllid ar y menywod y maent yn eu cynorthwyo, yn cynnwys data ar nodweddion gwarchodedig.

35. Rydym wedi cynnal digwyddiadau ymgysylltu mewn carchardai menywod gyda staff a phreswylwyr i dynnu sylw at faterion yn yr ystad carchardai, gweithlu'r carchardai a'r system cyfiawnder troseddol gyfan mewn perthynas â throseddwyr benywaidd. Rydym wedi nodi themâu a chanfyddiadau allweddol mewn gwahanol garchardai menywod ac wedi ceisio ymdrin â'r rhain yn y strategaeth.

36. O fewn Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, rydym wedi sefydlu gweithgor ar y ddarpariaeth gymunedol i droseddwyr benywaidd sy'n ceisio dod â chydweithwyr at ei gilydd o bob rhan o'r adran, yn cynnwys Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM, Rhaglen Drawsnewid yr Ystad Carchardai, timau prawf, cyfreithiol a chyllid i helpu yn y camau cyntaf i

[25] https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-system-statistics-quarterly-december-2017

ddatblygu'r cynnig ar gyfer darpariaeth gymunedol a sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei ystyried ar y cyfle cynharaf.

37. Rydym wedi cynnal cyfarfod bord gron ar fenywod Duon, Asiaidd a lleiafrifol ethnig yn y system cyfiawnder troseddol ac wedi cwrdd ar wahân â rhanddeiliaid allanol a sefydliadau Pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifol ethnig i ystyried yr anawsterau y mae menywod Duon, Asiaidd a lleiafrifol ethnig yn eu hwynebu a'r cyfleoedd cydraddoldeb cadarnhaol i'w cynnwys yn y strategaeth ar gyfer y rheini sy'n rhannu'r nodwedd warchodedig hon.

38. Rydym wedi rhoi sylw i anghenion troseddwyr benywaidd yn ein gwaith ar gam-drin domestig, sy'n effeithio ar bron 60% o'r cohort[26]. Rydym wedi cydweithio â'r tîm cam-drin domestig ar ddigwyddiad thematig gyda rhanddeiliaid allweddol i drafod troseddwyr benywaidd sydd wedi profi cam-drin domestig a'u hanghenion neilltuol a chymhleth.

39. Wrth ddatblygu Concordat Cenedlaethol ar Droseddwyr Benywaidd, byddwn yn ymgynghori â nifer o adrannau llywodraeth a phartneriaid lleol a chenedlaethol i sicrhau ein bod yn rhoi sylw dyledus i'r holl fathau o anghenion cydraddoldeb a wynebir gan fenywod ag anghenion lluosog a chymhleth yn y system cyfiawnder troseddol.

## Ystyriaethau cydraddoldeb ym meysydd y strategaeth

*Dull o weithredu*

40. O dan y strategaeth troseddwyr benywaidd, rydym yn awyddus i weld arweinyddiaeth genedlaethol gydgysylltiedig gryf ar draws Llywodraeth a fydd yn dileu dyblygu neu fylchau mewn gwasanaethau ac yn pennu disgwyliadau clir ar gyfer asiantaethau lleol, gan alluogi ardaloedd lleol i ddarparu cymorth aml-asiantaeth gyfannol seiliedig ar rywedd i fenywod agored i niwed sydd mewn perygl o droseddu.

41. Bydd canllawiau cenedlaethol a chymorth i ardaloedd lleol i weithredu ar sail drawsbynciol ar gyfer troseddwyr benywaidd a fydd yn cydnabod bod troseddwyr benywaidd yn grŵp penodol o fenywod agored i niwed sydd hefyd yn rhan o gohort ehangach ag "anghenion cymhleth". Bydd dull gweithredu o'r fath o dan arweiniad canolog yn creu nifer o gyfleoedd am gydraddoldeb; bydd negeseuon yn tynnu sylw at anghenion troseddwyr benywaidd yn ogystal ag anghenion troseddwyr benywaidd â nifer o nodweddion gwarchodedig sy'n wynebu gwahanol fathau o 'anfantais ddwbl' fel menywod Duon, Asiaidd a lleiafrifol ethnig[27].

42. Rydym yn credu y dylai fod yn bosibl creu gwell canlyniadau drwy hyfforddi staff y system cyfiawnder troseddol (carchardai, prawf, staff llys, etc) i weithio gyda throseddwyr benywaidd mewn ffordd sy'n cydnabod eu profiad o gam-drin a thrawma. Bydd staff sy'n gweithio gyda throseddwyr gwrywaidd yn parhau i dderbyn yr hyfforddiant a chyfarwyddyd sydd eu hangen i adsefydlu troseddwyr gwrywaidd a'u cynorthwyo'n effeithiol.

43. Rydym yn disgwyl y bydd gweithlu gwybodus am rywedd hefyd yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo cyfle cyfartal ymysg y menywod hynny sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig fel anabledd. Er enghraifft, dangoswyd bod lefel uwch na'r cyfartaledd o anabledd ymysg troseddwyr benywaidd[28]. Bydd hyfforddiant yn rhoi i'r rheini sy'n gweithio gyda throseddwyr benywaidd y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i weithredu ar sail

[26] Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Supporting data tables: Female offender strategy. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy

[27] https://www.gov.uk/government/publications/lammy-review-final-report

[28] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/278827/estimating-prevalence-disability-amongst-prisoners.pdf

rhywedd wrth ddelio â'u hanghenion cymhleth lluosog, yn cynnwys anableddau dysgu a phroblemau iechyd meddwl.

44. Mae'r strategaeth yn rhoi pwyslais ar Ddull System Gyfan o ymdrin â throseddwyr benywaidd a buddsoddiad o £1 miliwn rhwng 2015/16 a 2019/20 i helpu ardaloedd lleol i ddatblygu dull cyfannol, aml-asiantaeth o gynorthwyo menywod ag anghenion cymhleth. Parheir i fonitro'r effeithiau ar gydraddoldeb yn y pedwar prosiect Dull System Gyfan sy'n cael eu hariannu gan Y Weinyddiaeth Cyfiawnder a bydd yn ofynnol bod ardaloedd sydd ac a fu'n derbyn cyllid yn casglu data ar nodweddion gwarchodedig ac yn darparu'r rhain ar y cyd â'u hadroddiadau chwarterol ar gynnydd. Bydd hyn yn caniatáu i ni fonitro'r ymgysylltu ar sail nodweddion gwarchodedig fel y gellir adnabod unrhyw rwystrau a delio â nhw o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

45. Bydd y model a'r prosiectau Dull System Gyfan yn cael effaith gadarnhaol ar gyfer menywod y credwn fod cyfiawnhad drosti o ystyried nodau'r polisi. Gan fod tystiolaeth gennym sy'n dangos anfanteision penodol a brofir gan oedolion benywaidd sy'n droseddwyr, ac anghenion sy'n neilltuol i'r cohort hwn, roeddem yn barnu bod y prosiect yn ffordd gymesur i gyflawni'r nod dilys o alluogi ac annog y troseddwyr hyn i drechu neu leihau'r anfanteision hyn, a chwrdd â'r anghenion rydym wedi'u nodi. Mae tystiolaeth yn dangos bod troseddwyr benywaidd yn fwy tebygol ar gyfartaledd o brofi amgylchiadau cymhleth, yn cynnwys cefndiroedd o gam-drin a ffyrdd caotig o fyw, na throseddwyr gwrywaidd. Mae'r ffaith bod cyfran lai o droseddwyr gwrywaidd yn dweud bod arnynt angen cymorth i ddelio â phroblemau iechyd meddwl (18% o'i gymharu â 49% o droseddwyr benywaidd)[29], eu bod yn cael eu cam-drin[30], eu bod wedi'u cymryd i ofal ac felly fod ganddynt anghenion cymhleth, o'u cymharu â throseddwyr benywaidd, yn awgrymu nad yw graddau'r angen am fodel Dull System Gyfan ymysg troseddwyr gwrywaidd o'u cymharu â throseddwyr benywaidd yn ei gwneud yn rhesymol ymarferol darparu model Dull System Gyfan ar hyn o bryd i droseddwyr gwrywaidd. Er hynny, gellir elwa o'r gwersi a ddysgir o'r Dull System Gyfan i ddatblygu model cymorth cyfannol ar gyfer cohortau eraill, os yw'n briodol.

46. Rydym hefyd yn buddsoddi £3 miliwn i helpu ardaloedd a phartneriaid lleol i ddarparu gwasanaethau ac ymyriadau sydd â'r amcan o ddiwallu anghenion menywod agored i niwed, yn enwedig y rheini sydd wedi profi cam-drin domestig, yn eu hardal ac i barhau i ddatblygu dulliau system gyfan aml-asiantaeth. Mae nifer o gyfleoedd cydraddoldeb cadarnhaol yn codi o'r cyllid hwn, yn cynnwys effaith gadarnhaol ar gyfer menywod Duon, Asiaidd a lleiafrifol ethnig, gan y bydd y meini prawf hanfodol ar gyfer ceisio cyllid yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddangos sut yn union y byddant yn darparu cymorth i fenywod â nodweddion gwarchodedig ac yn eu hannog yn rhagweithiol i ymwneud â'u gwasanaeth.

*Ymyrraeth Gynnar*

47. Mae'r bennod hon o'r strategaeth yn ymwneud â darparu ymyriadau cynnar gwell a phenodol i fenywod agored i niwed sydd mewn perygl o droseddu fel y byddant yn cael eu dargyfeirio oddi wrth y system cyfiawnder troseddol os yw'n briodol. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno gwasanaethau asesu ac atgyfeirio Cyswllt a Dargyfeirio. Er bod y strategaeth yn canolbwyntio ar ddarparu'r gwasanaethau hyn i fenywod, nid ydym yn credu bod hyn yn gwahaniaethu yn erbyn troseddwyr gwrywaidd. Gellir defnyddio ymateb

[29] https://www.gov.uk/government/publications/gender-differences-in-substance-misuse-and-mental-health-amongst-prisoners--2
[30] https://www.gov.uk/government/publications/prisoners-childhood-and-family-backgrounds

seiliedig ar rywedd i sicrhau'r canlyniadau gorau, gan gymhwyso'r gwersi a ddysgir at droseddwyr gwrywaidd hefyd.

48. Mae gwasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio (CaD) yn cael eu cyflwyno yn nalfeydd yr heddlu a llysoedd yn Lloegr. Cynigir gwasanaethau CaD gan weithwyr iechyd proffesiynol ar y safle sy'n gallu adnabod, asesu ac atgyfeirio troseddwyr sy'n agored i niwed yng nghyswllt iechyd meddwl, anabledd dysgu, camddefnyddio sylweddau a ffactorau cymdeithasol i dderbyn triniaeth, neu sicrhau eu bod yn cael y cymorth cywir ar eu taith drwy'r system cyfiawnder troseddol. Wedyn gellir trosglwyddo gwybodaeth am eu hanghenion iechyd i asiantaethau'r system cyfiawnder troseddol a gellir ei hystyried, lle y bo'n briodol, wrth wneud penderfyniadau ynghylch cyhuddo a dedfrydu**.** Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu treialu ar gyfer dynion a menywod mewn gorsafoedd heddlu a llysoedd mewn mwy nag 80% o'r ardaloedd yn Lloegr. Mae NHS England yn arwain rhaglen draws-lywodraethol i ehangu'r gwasanaethau hyn i gyrraedd pob rhan o Loegr erbyn 2021. Mae'r Model Gweithredu CaD yn datgan bod angen i'r gwasanaethau ddelio ag anghenion penodol grwpiau sydd o dan anfantais, yn cynnwys menywod, pobl o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, a phobl hŷn. Penodwyd swyddog arweiniol i ddatblygu llwybr penodol ar gyfer troseddwyr benywaidd.

*Atebion Cymunedol*

49. Ar gyfartaledd, mae troseddwyr benywaidd wedi cyflawni troseddau llai difrifol[31] ac, ar gyfartaledd, maent yn peri llai o risg i'r cyhoedd na throseddwyr gwrywaidd[32]. Dim ond 44% o ddiffynyddion benywaidd a erlynwyd gan yr heddlu yn 2017 (o'i gymharu â 77% o ddiffynyddion gwrywaidd)[33]. Mae nifer y menywod a erlynir am efadu ffi'r drwydded deledu ac am driwantiaeth plant yn uwch na'r cyfartaledd[34]. Yn 2017, erlynwyd 31% o ddiffynyddion benywaidd gan yr Awdurdod Gorfodi Trwyddedu Teledu (sef bron 70% o'r erlyniadau am efadu ffi'r drwydded deledu)[35]. Felly rydym yn credu bod dedfrydau cymunedol effeithiol yn fwy priodol ar gyfer nifer mawr o'r menywod hyn, ac y byddant yn creu gwell canlyniadau, i'r troseddwr ac i'r cyhoedd, na dedfrydau o garchar.

50. Byddwn yn sicrhau bod dedfrydwyr yn cael gwybodaeth amserol a chynhwysfawr am yr opsiynau effeithiol sydd ar gael ar gyfer dedfrydu troseddwyr benywaidd yn y gymuned, a all gynnig dewis yn lle'r ddalfa i rai. Nid ydym yn credu y bydd hyn yn gwahaniaethu yn erbyn troseddwyr gwrywaidd gan y bydd y fframwaith dedfrydu yn parhau'n niwtral o ran rhywedd.

51. Yn aml bydd anghenion cymhleth gan fenywod sydd yn y ddalfa, yn cynnwys cefndir o gam-drin, sy'n wahanol i rai dynion ac y gellir ymateb yn well iddynt mewn amgylchedd cymunedol. Mae 63% o fenywod yn y ddalfa, a gafodd asesiad, wedi profi trais domestig o'i gymharu â dim ond 7% o ddynion yn y ddalfa[36]. Yn ogystal â hyn, mae carcharorion benywaidd ddwywaith yn fwy tebygol o gofnodi profiad o gam-drin yn ystod plentyndod (53% o'i gymharu â 27% o ddynion) ac mae'r rheini a gafodd eu cam-drin fel plant yn fwy

31 https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-system-statistics-quarterly-december-2017
32 Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Supporting data tables: Female offender strategy. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy
33 Ibid.
34 https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-system-statistics-quarterly-december-2017
35 Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Supporting data tables: Female offender strategy. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy
36 Ibid.

tebygol o gofnodi cam-drin rhywiol (67%) na charcharorion gwrywaidd sydd wedi cael eu cam-drin (24%)[37].

52. Ar hyn o bryd gall canlyniadau i fenywod yn y ddalfa a, lle bo'n berthnasol, i'w plant fod yn wael. Mae cyfran fwy o famau a garcharwyd yn byw gyda'u plant dibynnol cyn eu carcharu na thadau a garcharwyd (~60% vs. ~45%)[38] ac am mai dim ond 12 o garchardai menywod sydd yn Lloegr (dim un yng Nghymru) mae menywod yn aml yn cael eu cadw ymhell o ardal eu cartref ac mae hyn yn arwain at wahanu unedau teuluol. Ar 31 Mai 2018, roedd menywod yn cael eu cadw, ar gyfartaledd, 63 milltir o'u cartref ac roedd tua 650 o fenywod yn cael eu cadw mewn carchardai tua 100 milltir o'u cartref[39], allan o boblogaeth o tua 3,900[40]. Mae carcharu mamau'n cael mwy o effaith ar drefniadau byw plant dibynnol nag y mae carcharu tadau[41]. Mae tystiolaeth ryngwladol wedi dangos bod plant sydd â'u rhieni wedi'u carcharu yn wynebu mwy o risg o ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddol[42].

53. Yn 2017, roedd cyfradd y digwyddiadau hunan-niweidio yn 2,093 am bob 1,000 o garcharorion benywaidd – bron 5 gwaith yn uwch na'r gyfradd ar gyfer dynion[43]. Roedd mwy na hanner yr oedolion benywaidd (56%) a ryddhawyd o'r ddalfa rhwng Ebrill a Mehefin 2016 wedi aildroseddu o fewn blwyddyn[44], ac roedd 71% o fenywod a ryddhawyd yn y cyfnod hwn yn dilyn dedfryd fyr o garchar (<12m) wedi aildroseddu o fewn blwyddyn (47% a 63% oedd y ffigurau cyfatebol ar gyfer oedolion gwrywaidd).

54. Mewn ymateb i effeithiau negyddol y ddalfa sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod, mae ein strategaeth yn ceisio dargyfeirio menywod o'r system cyfiawnder troseddol a chynnal darpariaeth gymunedol i droseddwyr benywaidd. Rydym yn bwriadu datblygu opsiynau i dreialu pum canolfan breswyl i fenywod gyda phartneriaid lleol mewn ardaloedd lle nodwyd bod galw. Mae'r rhain yn wahanol i Fangre a Gymeradwywyd sy'n gyfleuster preswyl sy'n ceisio darparu goruchwyliaeth ar gyfer troseddwyr sy'n peri risg uchel neu uchel iawn o achosi niwed difrifol ar ôl eu rhyddhau o'r ddalfa ar drwydded, sy'n cwblhau dedfryd gymunedol neu sydd ar fechnïaeth wrth ddisgwyl treial. Byddai'r canolfannau preswyl arfaethedig i fenywod yn cartrefu troseddwyr benywaidd sy'n peri risg isel neu ganolig o achosi niwed difrifol ar ôl eu rhyddhau o'r ddalfa yn ogystal â chynnig dewis yn lle'r ddalfa ar gyfer menywod sy'n peri risg ganolig neu isel o achosi niwed difrifol. Oherwydd ystod yr anghenion sydd gan fenywod, mae ymyriad llety yn annhebygol o fod yn effeithiol ar ei ben ei hun i leihau aildroseddu a gwella canlyniadau: mae angen cymorth ehangach a gwaith allweddol i fynd i'r afael ag anghenion eraill sy'n achosi troseddu. Felly rydym yn rhag-weld y bydd pob model hefyd yn cynnwys cyfleusterau ychwanegol.

55. Byddai'r darpariaethau hyn yn rhan o nodau ehangach y strategaeth troseddwyr benywaidd i sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau penodol i fenywod yn y gymuned ac yn y pen draw i leihau nifer y menywod sy'n mynd i'r ddalfa, gwella'r gyfradd ar gyfer

---

37 https://www.gov.uk/government/publications/prisoners-childhood-and-family-backgrounds
38 Ibid.
39 Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Supporting data tables: Female offender strategy. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy
40 https://www.gov.uk/government/statistics/prison-population-figures-2018
41 https://www.gov.uk/government/publications/prisoners-childhood-and-family-backgrounds
42 Murray, Farrington, Sekol (2012) Children's Antisocial Behavior, Mental Health, Drug Use and Educational Performance After Incarceration: A Systematic Review and Meta-Analysis. Psychological Bulletin 2012. Cyfrol 138. Rhif 2, 175-210
43 https://www.gov.uk/government/statistics/safety-in-custody-quarterly-update-to-december-2017
44 Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Supporting data tables: Female offender strategy. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy

cwblhau dedfrydau cymunedol yn llwyddiannus, lleihau aildroseddu a gwella cyfleoedd bywyd menywod a’u teuluoedd.

56. Rydym yn gweithio i nodi’r ardaloedd lle mae’r galw mwyaf a’r bwriad yw y bydd y cyfleusterau hyn mewn lleoliadau hygyrch sy’n rhoi’r gallu i gynnal cysylltiadau agos iawn â darparwyr gwasanaethau yn y gymuned.

57. Byddwn hefyd yn ystyried gwasgariad daearyddol y canolfannau i helpu i greu mynediad cyfartal at ddarpariaeth gymunedol i fenywod ledled Cymru a Lloegr.

*Amodau yn y Ddalfa*

58. Yn y maes hwn yn y strategaeth, rydym wedi cydnabod bod anghenion penodol o ran diogelwch yn yr ystad menywod ac felly wedi penodi swyddog arweiniol ar ddalfeydd diogelach ar gyfer menywod. Rôl arbenigol yw hon a fydd yn darparu cyngor i garchardai menywod ac yn hyrwyddo a rhannu arferion da ar adnabod a chynorthwyo carcharorion sydd mewn perygl. Rydym yn rhag-weld na fydd hyn yn creu anfantais i droseddwyr gwrywaidd gan fod timau dalfa ddiogelach ym mhob carchar ac mae swyddogion arweiniol ar ddalfeydd diogelach ar gyfer pob rhanbarth a fydd yn canolbwyntio ar yr ystad dynion. Drwy sicrhau sylw i grŵp lleiafrifol, fel troseddwyr benywaidd, rydym yn bwriadu hybu cyfle cyfartal i fenywod, drwy gwrdd â’u hanghenion yn fwy effeithiol.

59. Ar gyfer menywod sy’n parhau yn yr ystad carchardai, byddwn yn gweithio i roi sylw i’w hanghenion drwy fodel gwell ar gyfer Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC). Rydym yn gweithredu mewn ffordd newydd sy’n seiliedig ar drawma yn y system Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa newydd i sicrhau bod y rheolweithiau’n lleihau effaith carcharu, ac yn gallu cynnal cymunedau mwy therapiwtig oddi mewn iddynt, gyda’r nod o leihau’r gofid emosiynol a brofir gan y menywod. Cychwynnwyd rhaglen ddatblygu hirdymor sy’n gofyn am syniadau gan randdeiliaid allweddol, yn cynnwys staff carchardai, carcharorion benywaidd a sefydliadau’r sector gwirfoddol i sicrhau y byddwn yn mynd â’r maen i’r wal. Bydd yr OMiC newydd hefyd yn darparu swyddog penodedig i bob carcharor sydd o dan amodau caeëdig a fydd yn ymgysylltu â’r carcharor yn rheolaidd ac ar sail un i un. Er y bydd yr OMiC newydd yn gymwys i ddynion ac i fenywod, am fod materion penodol yn berthnasol i droseddwyr benywaidd, mae model pwrpasol yn cael ei ddatblygu ar gyfer menywod er mwyn ymdrin ag anghenion a nodweddion penodol troseddwyr benywaidd yn y ddalfa.

**Ystyried Nodweddion Gwarchodedig**

**Mae’r naw nodwedd sy’n cael eu gwarchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wedi’u dangos isod. Rhaid i’ch cynnyrch fod yn berthnasol i bob un ohonynt. Dangoswch dystiolaeth yn yr adrannau hyn o’r ffordd rydych wedi ystyried, hybu neu hyrwyddo’ch cynnyrch fel arall gan gyfeirio at unrhyw un o’r rhain.**

60. Mae’r paragraffau isod yn cynnwys crynodeb o’r data allweddol a gyhoeddwyd ar gyfrannau’r troseddwyr â nodweddion gwarchodedig. Felly mae’n bosibl y bydd unrhyw newidiadau a wneir yn y ddarpariaeth bresennol i droseddwyr benywaidd yn cael effaith anghymesur anuniongyrchol ar rai o’r grwpiau gwarchodedig hyn. Gall yr effeithiau hyn fod yn gadarnhaol ac yn negyddol. Rydym yn egluro yn yr adran hon sut rydym wedi ystyried a hybu ein cynnig neu ei hyrwyddo fel arall gan gyfeirio at y nodweddion gwarchodedig canlynol.

*Oed*

61. Yn 2017, menywod 25+ oed oedd y gyfran fwyaf o'r oedolion benywaidd (ac oedolion gwrywaidd) a gafodd eu herlyn, eu dedfrydu, a'u rhoi o dan ddedfryd gymunedol neu garcharol[45]. Ar 31 Mawrth 2018, y grŵp oedran mwyaf cyffredin ymysg carcharorion benywaidd oedd 30-39, sef 36% o boblogaeth carchardai menywod (30% o boblogaeth carchardai dynion)[46]. Roedd 130 (3%) o oedolion benywaidd ifanc (18-20 oed) yn y carchar a 524 (14%) o fenywod 50 oed neu'n hŷn (5% ac 16% yw'r ffigurau cyfatebol ym mhoblogaeth y carchardai dynion).

62. Mae'r strategaeth troseddwyr benywaidd i'w chymhwyso at yr holl droseddwyr benywaidd 18 oed ac yn hŷn. Bydd pob agwedd ar y strategaeth yn dod â'r un buddion i oedolion benywaidd sy'n droseddwyr (dros 18 mlwydd oed). Er enghraifft, ni fydd mesurau i hyrwyddo ymyriadau cynnar a gwella darpariaeth gymunedol yn ddetholus o ran oed ymysg troseddwyr sy'n oedolion benywaidd.

63. Yn ogystal â hyn, bydd y meini prawf cymhwystra ar gyfer y cohort menywod a fyddai'n defnyddio'r canolfannau preswyl i fenywod yn cael eu datblygu'n ofalus i sicrhau nad ydynt yn effeithio'n anffafriol neu'n cau allan menywod ar sail eu hoedran a fyddai fel arall wedi'u rhoi mewn mwy o berygl o brofi anfanteision neu rwystrau. Drwy gydweithio â phartneriaid, rhoddir ystyriaeth hefyd i gynllun y canolfannau preswyl arfaethedig i fenywod i sicrhau bod y dyluniad ffisegol yn gallu cynnwys unrhyw wasanaethau arbenigol a ddefnyddir gan droseddwyr â nodweddion gwarchodedig, er enghraifft, canllawiau ar gyfer carcharorion hŷn sydd â llai o allu i symud.

64. Mae troseddwyr ifanc yn cael eu trafod gan y system cyfiawnder ieuenctid, lle maent yn cael dedfrydau a mathau o gymorth gwahanol, yn cynnwys pwyslais ar ystyried penderfyniadau digarchar. Felly bydd troseddwyr benywaidd ifanc yn cael asesiad o anghenion a chymorth gwahanol wrth fynd drwy'r system cyfiawnder troseddol.

*Anabledd*

65. Rydym yn cydnabod bod y diffiniad o anabledd yn cwmpasu namau iechyd corfforol a meddyliol.

66. Mae cyfran y carcharorion ag anableddau yn uwch na'r cyfartaledd ymysg y boblogaeth o droseddwyr benywaidd ac rydym yn rhag-weld y bydd y strategaeth hon yn cael effaith gadarnhaol mewn perthynas â'r nodwedd warchodedig hon yng nghyswllt troseddwyr benywaidd. Roedd canfyddiadau o arolwg Llys y Goron yn 2013 yn dangos bod menywod a oedd yn cael eu rhoi ar brawf am droseddau dwyn, anonestrwydd a thwyll yn fwy na dwywaith mor debygol â dynion o fod â salwch corfforol neu feddyliol yn ffactor[47].

67. Yn yr arolwg Surveying Prisoner Crime Reduction (SPCR) roedd menywod yn fwy tebygol o gael eu hystyried yn anabl (55%) na dynion (34%), gan fod y gyfran o fenywod yn y grŵp gorbryder ac iselder yn fwy na'r cyfartaledd[48]. Er na ellir eu cymharu'n uniongyrchol oherwydd y gwahaniaeth yn y cwestiwn a ofynnwyd, yng nghyfrifiad 2011 dywedodd 18% o'r boblogaeth gyffredinol yng Nghymru a Lloegr fod eu gweithgareddau dyddiol wedi'u cyfyngu i raddau bach neu fawr oherwydd problem iechyd neu anabledd[49].

---

45 https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-system-statistics-quarterly-december-2017
46 https://www.gov.uk/government/statistics/offender-management-statistics-quarterly-october-to-december-2017
47 https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/380090/women-cjs-2013.pdf
48 https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/278827/estimating-prevalence-disability-amongst-prisoners.pdf
49 https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/disability/articles/disabilityinenglandandwales/2013-01-30

68. Yn yr arolwg SPCR, roedd carcharorion benywaidd yn ddwywaith yn fwy tebygol na charcharorion gwrywaidd o ddweud bod arnynt angen cymorth at broblemau iechyd meddwl cyn dod i'r ddalfa[50]. Roedd carcharorion benywaidd wedi cofnodi bod eu hiechyd meddwl yn waeth o'u cymharu â charcharorion gwrywaidd, ac roedd lefelau uwch o ymgeisiau i gyflawni hunanladdiad cyn dod i'r ddalfa, seicosis a gorbryder ac iselder yn eu mysg.

69. Mae data o OASys yn dangos, o blith troseddwyr (yn y ddalfa ac yn y gymuned) a oedd wedi cael asesiad ar 30 Mehefin 2017, fod problem iechyd meddwl wedi'i nodi yn achos 21% o fenywod a 10% o ddynion; bod anabledd wedi'i nodi yn achos 38% o fenywod a 25% o ddynion; a bod anhawster/her dysgu wedi'i nodi yn achos 32% o fenywod a 28% o ddynion[51].

70. Roedd adroddiad am Arolygiad ar y Cyd Cyfiawnder Troseddol a gyhoeddwyd yn Ionawr 2014 yn cynnig asesiad clir o'r anawsterau a wynebir ar hyn o bryd gan droseddwyr ag anableddau dysgu yn y system cyfiawnder troseddol:

    "*Offenders with learning disabilities were not always afforded the level of service appropriate to the risk of harm they presented or their needs. Problems included a failure to recognise a learning disability, and failure to refer the offender to specialist services for assessment. We regularly found an absence of access to specialist support that would address their offending behaviour and manage the risk of harm posed to the public. We were particularly concerned to find that the processes, absence of services or a simple lack of knowledge and training often led to offenders with a learning disability being perceived as a problem to be processed, rather than an individual with particular needs requiring individual treatment*."[52]

71. Mae'r Strategaeth Troseddwyr Benywaidd yn cynnig cyfle i ddelio â rhai o'r materion a nodwyd yn yr adroddiad am yr Arolygiad ar y Cyd Cyfiawnder Troseddol. Y bwriad wrth gyflwyno gwasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio yw adnabod troseddwyr sydd â ffactorau sy'n eu gwneud yn agored i niwed, yn cynnwys anableddau dysgu a phroblemau iechyd meddwl, ac mae'n bosibl y bydd hyn yn rhoi'r gallu i ddargyfeirio rhai menywod oddi wrth y system cyfiawnder troseddol ac at gymorth priodol. Bydd y strategaeth yn rhoi sylw pellach i anghydraddoldebau'r rheini sy'n rhannu'r nodwedd warchodedig hon drwy hybu dull seiliedig ar drawma o ymdrin â throseddwyr a gweithlu gwybodus am rywedd. Bydd hyn yn rhoi gwell gwybodaeth i'r rheini sy'n gweithio gyda throseddwyr benywaidd am y wybodaeth a hyfforddiant sydd eu hangen i ddelio â'u hanghenion cymhleth lluosog, yn cynnwys anableddau dysgu a phroblemau iechyd meddwl.

72. Bydd cynllun ac adeiladwaith y canolfannau preswyl i fenywod yn ceisio cwrdd â'r gofynion ar gyfer trefniadau mynediad sydd wedi'u diffinio yn y gyfraith ac mewn rheoliadau adeiladu. Yn ogystal â hyn, ymgysylltir â rhanddeiliaid drwy gydol y cyfnodau cynllunio ac adeiladu i drafod eu hanghenion er mwyn sicrhau bod cyfleusterau newydd yn cyflawni ein rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb. Bydd hyn yn cynnwys ymgynghori â chyd-gomisiynwyr iechyd a llesiant a fydd yn ein helpu i gwrdd ag anghenion anabledd (corfforol a meddyliol) yn briodol ac ymgynghori â throseddwyr presennol sydd ag anabledd.

73. Bydd Rhaglen Drawsnewid yr Ystad Carchardai yn sicrhau, lle nad yw cyfleusterau yn yr ystad bresennol yn cwrdd â'r safonau gofynnol ar hyn o bryd, y bydd adolygiad yn cael ei

[50] https://www.gov.uk/government/publications/gender-differences-in-substance-misuse-and-mental-health-amongst-prisoners--2
[51] Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Supporting data tables: Female offender strategy. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy
[52] http://www.justice.gov.uk/downloads/publications/inspectorate-reports/hmiprobation/learning-disabilities-thematic-report.pdf

gynnal gyda'r bwriad o adnewyddu er mwyn cwrdd yn well ag anghenion troseddwyr anabl. Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM wedi ymrwymo i weithio gyda Llywodraethwyr sy'n gallu dangos lle nad yw eu hystad ar hyn o bryd yn cwrdd â'r gofynion ar gyfer eu cohort presennol o garcharorion ag anabledd a bydd yn gweithio i ddarparu'r cyfleusterau i ddelio â hyn ac i beidio â pheri anfantais i droseddwyr benywaidd y mae angen iddynt barhau yn yr ystad carchardai bresennol. Mae gwelliannau yn yr arfaeth hefyd mewn gwasanaethau dalfa ddiogelach ar gyfer menywod â phroblemau iechyd meddwl a fydd yn cynorthwyo menywod sy'n parhau yn yr ystad carchardai ac sydd heb fod yn gymwys i'w dargyfeirio o'r ddalfa. Mae hyn yn cynnwys tîm dalfa ddiogelach arbenigol penodol ar gyfer yr ystad menywod a chyflwyno gwell hyfforddiant ar atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio i helpu menywod sydd â phroblemau iechyd meddwl.

*Ailbennu rhywedd*

74. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn neu aflonyddu ar unrhyw berson am ei fod yn bwriadu mynd, yn mynd neu wedi mynd drwy broses o ailbennu ei rywedd. Mae data am ailbennu rhywedd yn gyfyngedig.

75. Ym Mawrth/Ebrill 2017, dywedodd 47 o'r 124 o garchardai cyhoeddus a phreifat (38%) yng Nghymru a Lloegr eu bod yn cadw un neu ragor o garcharorion trawsryweddol. Roedd 125 o garcharorion ar y pryd a oedd yn byw neu'n dangos rhywedd a oedd yn wahanol i'r rhyw a aseiniwyd iddynt ar eu genedigaeth ac sydd wedi cael cynhadledd achos[53]. O'r rhain, dywedodd 99 fod eu rhywedd yn wrywaidd, dywedodd 23 fod eu rhywedd yn fenywaidd ac roedd 3 heb nodi eu rhywedd.

76. Mae'r ffigurau yn cynnig amcangyfrif o nifer y carcharorion trawsryweddol ac mae'n debygol eu bod yn is na'r niferoedd gwirioneddol. Mae'n bosibl bod rhai carcharorion trawsryweddol sydd heb ddatgan eu bod yn drawsryweddol neu wedi'u trafod gan fwrdd achosion trawsryweddol lleol, a rhai sydd wedi cael Tystysgrif Cydnabod Rhywedd. Rydym yn rhag-weld na fydd y strategaeth yn cael unrhyw effaith niweidiol ar y rheini sy'n rhannu'r nodwedd warchodedig hon.

77. Ar gyfer y canolfannau preswyl i fenywod, bydd darpariaethau a nodwyd yn y PSI 17/2016 (Rheoli a Gofalu am Droseddwyr Trawsryweddol) a'r PI 16/2016 (Polisi Rhannu Gwybodaeth) newydd ar gyfarwyddiadau yn brif ystyriaeth wrth ddyrannu troseddwyr. Er enghraifft, mae'r byrddau achosion lleol a chymhleth yn adolygu lleoliadau presennol carcharorion trawsryweddol ac yn helpu troseddwyr trawsryweddol i fynegi'r rhywedd y maent yn uniaethu ag ef (yn cynnwys y rheini sy'n rhyngrywiol a/neu'r rheini sydd â hunaniaeth anneuaidd, rhyweddhylifol a thrawswisgol).

*Beichiogrwydd/Mamolaeth*

78. Nid yw data ar gael am nifer y menywod sy'n mynd yn feichiog wrth fynd drwy'r system cyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, mae rhai data ar gael am nifer y troseddwyr sy'n debygol o fod â phlant dibynnol.

79. Yn yr arolwg SPCR, dywedodd tua hanner y carcharorion benywaidd a gwrywaidd fod ganddynt blant o dan 18 oed[54]. Mae dadansoddiad o ddata cysylltiedig Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, DWP a Chyllid a Thollau EM wedi amcangyfrif bod un neu ragor o blant dibynnol gan 24% i 31% o'r holl droseddwyr benywaidd a gafodd euogfarn yn 2012 ar

---

53 https://www.gov.uk/government/statistics/noms-annual-offender-equalities-report-2016-to-2017
54 https://www.gov.uk/government/publications/prisoners-childhood-and-family-backgrounds

adeg y penderfyniad am drosedd[55]. Ar gyfartaledd, roedd 2 o blant gan y rheini a oedd â phlant dibynnol. Ymhlith y gwahanol fathau o benderfyniad, roedd menywod a gafodd eu dedfrydu i'r ddalfa ar unwaith yn llawer llai tebygol o fod â phlant dibynnol (rhwng 13% a 19%). Ar gyfer troseddau dwyn, anonestrwydd a thwyll, roedd menywod yn fwy na thair gwaith mor debygol â gwrywod o gael tic yn blwch ar gyfer y ffactor o fod yn brif ofalwr/bod â chyfrifoldebau gofalu ar eu ffurflen yn arolwg Llys y Goron 2013[56].

80. Er bod data am gyfran y troseddwyr sydd â phlant dibynnol yn gyfyngedig, rydym yn rhag-weld y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol mewn perthynas â'r nodwedd warchodedig hon yng nghyswllt troseddwyr benywaidd. Byddai effaith y strategaeth ar feichiogrwydd/mamolaeth yn gadarnhaol os oedd modd dargyfeirio nifer cynyddol o droseddwyr beichiog a throseddwyr sy'n famau newydd o'r system cyfiawnder troseddol, drwy ddarparu cyllid gennym ar gyfer gwasanaethau cymunedol i fenywod a datblygu canolfannau preswyl i fenywod a fyddai wedyn yn lleihau'r effaith sy'n pontio'r cenedlaethau o garcharu mamau.

81. Er hynny, rydym yn cydnabod bod rhai menywod sy'n feichiog neu'n famau newydd nad ydynt yn addas i'w cyfeirio i ddewisiadau yn lle'r ddalfa yn y gymuned. Mewn achosion o'r fath, mae Unedau Mamau a Babanod ar gael mewn rhai carchardai. Ar hyn o bryd, mae gennym bum Uned Mamau a Babanod yn y carchardai menywod yng Nghymru a Lloegr sy'n darparu cyfanswm o 52 o leoedd i famau. Fodd bynnag, mae cyfanswm o 57 o leoedd ar gyfer babanod er mwyn darparu ar gyfer y posibilrwydd o eni gefeilliaid. Y terfyn oed ar gyfer Unedau Mamau a Babanod yw 18 mis (gyda rhywfaint o hyblygrwydd mewn amgylchiadau eithriadol), gan fod canfyddiadau'n awgrymu y gall babanod fod yn fwy sensitif o'r oedran hwnnw i ysgogiadau yn eu hamgylchedd preswyl. Diogelwch a budd pennaf y plentyn yn yr uned yw'r brif ystyriaeth ym mhob mater. Mae Unedau Mamau a Babanod yn cynnig profiad dysgu cadarnhaol i fabanod a chyfleoedd da ar gyfer chwarae synhwyraidd, chwilio a darganfod.

82. Yn ogystal â hyn, ar gyfer mamau sy'n parhau yn yr ystad carchardai, mae carchardai yn ceisio helpu mamau i gynnal cysylltiadau teuluol (lle y bo'n briodol) tra byddant yn y ddalfa, ac mae gweithwyr ymgysylltu teuluol yn yr holl garchardai menywod sy'n cael eu rhedeg gan y sector cyhoeddus. Mae'r gweithwyr ymgysylltu teuluol yn helpu i gynnal perthnasoedd cadarnhaol, yn enwedig ar gyfer y menywod hynny sydd â phroblemau teuluol cymhleth. Maent yn darparu cydgysylltu/eiriolaeth gyda gwasanaethau awdurdodau lleol, yn cefnogi gweithgareddau dysgu i'r teulu ac yn darparu cymorth cofleidiol personol i famau yn y carchar yn ystod achosion gofal a thrwy gynlluniau cymorth penodol mewn perthynas â chyfarfodydd cyswllt olaf cyn mabwysiadu.

83. Mae carchardai menywod hefyd yn gweithio i ddarparu mathau eraill o gymorth i wella cysylltiadau teuluol, yn cynnwys darparu gweithiwr chwarae ar gyfer ymweliadau, diwrnodau i'r teulu, ymweliadau sy'n canolbwyntio ar blant, clybiau gwaith cartref a rhaglenni penodol ar berthnasoedd a sgiliau rhianta.

*Hil*

84. Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd 14% o boblogaeth y DU yn Bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig (PDdALlE)[57]. Mae cyfran y menywod PDdALlE ym mhoblogaeth y carchardai yn

---

[55] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/465916/female-offenders-child-dependents-statistics.pdf

[56] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/380090/women-cjs-2013.pdf

[57] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/ethnicity/articles/ethnicityandnationalidentityinenglandandwales/2012-12-11

fwy na'r cyfartaledd[58], yn enwedig menywod duon. Fel y dangoswyd yn ddiweddar yn adolygiad Lammy o'r driniaeth a'r canlyniadau i unigolion sy'n Bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig (PDdALlE) yn y System Cyfiawnder Ieuenctid[59], mae troseddwyr benywaidd sy'n PDdALlE yn profi canlyniadau sy'n waeth na rhai'r menywod eraill, sef 'anfantais ddwbl'. Mae canfyddiadau allweddol yn Adolygiad Lammy yn dangos ar gyfer 2014/15:

- Bod menywod Duon, ar ôl eu harestio, yn llai tebygol o gael eu herlyn na menywod Gwyn. O'r rheini a arestiwyd, roedd 88 o fenywod Duon wedi'u cyhuddo gan y CPS am bob 100 o fenywod Gwyn.
- Bod menywod Duon, ar ôl eu cyhuddo o drosedd, yn fwy tebygol o gael eu rhoi ar brawf yn Llys y Goron. O'r rheini a gyhuddwyd, roedd 163 o fenywod Duon wedi'u rhoi ar brawf yn Llys y Goron am bob 100 o fenywod Gwyn.

85. O dan amgylchiadau cyffelyb, mae menywod a dynion PDdALlE yn fwy tebygol o gael eu carcharu na menywod a dynion gwyn[60]. Yn 2017, roedd y ddedfryd gyfartalog mewn carchar yn 3.5 mis yn hirach ar gyfer troseddwyr PDdALlE benywaidd (14.0 mis) na throseddwyr gwyn benywaidd (10.5 mis).[61]

86. Ar 31 Mawrth 2018, roedd 82% o boblogaeth y carchardai menywod yn Wyn, 8% yn Ddu/Du Prydeinig, 4% yn Gymysg, 4% yn Asiaidd/Asiaidd Prydeinig, ac 1% wedi nodi eu bod yn perthyn i Grŵp Ethnig Arall.[62] Mae cyfran y dynion PDdALlE yn uwch byth na'r cyfartaledd, sef 27% o boblogaeth y carchardai dynion (13% yn Ddu/Du Prydeinig; 8% yn Asiaidd/Asiaidd Prydeinig; 4% yn Gymysg; ac 1% yn perthyn i Grŵp Ethnig Arall).

87. Rydym yn rhag-weld na fydd y strategaeth troseddwyr benywaidd yn cael effeithiau anffafriol ar hil. Er hynny, rydym yn gwybod bod menywod PDdALlE yn wynebu nifer o anfanteision yn y system cyfiawnder troseddol ac rydym wedi ystyried tystiolaeth o ystadegau cyfiawnder troseddol ar ethnigrwydd yn ogystal â chanfyddiadau o Adolygiad Lammy i'n helpu i lunio ein strategaeth. Yn benodol, mae gwersi a ddysgwyd o Ddull System Gyfan Manceinion Fwyaf yn dangos bod menywod PDdALlE yn llai tebygol o ymgysylltu â gwasanaethau cymorth cymunedol. Mae'r Dull System Gyfan yn ystyried beth yw'r ffordd orau i gynorthwyo grwpiau fel menywod PDdALlE sy'n llai tebygol o ymgysylltu, a bydd yn rhannu'r gwersi a ddysgir â'r Weinyddiaeth Cyfiawnderac eraill er mwyn cyfrannu at yr ymarfer gorau.

88. Mae'r strategaeth yn cynnwys mesurau penodol i wella canlyniadau i fenywod PDdALlE yn y system cyfiawnder troseddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ymgysylltu'n uniongyrchol â menywod PDdALlE a menywod sy'n Wladolion Tramor sy'n cael profiad o'r system cyfiawnder troseddol fel y gellir ystyried eu barn wrth ddatblygu a gweithredu polisi
- Cydweithio'n agosach â sefydliadau'r sector gwirfoddol a sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda throseddwyr benywaidd sy'n PDdALlE ac yn Wladolion Tramor i feithrin eu gallu i rannu'r arferion gorau a ffurfio rhwydweithiau
- Darparu rhagor o hyfforddiant seiliedig ar ddiwylliant i staff ym maes rheoli ac adsefydlu troseddwyr.

58 https://www.gov.uk/government/statistics/offender-management-statistics-quarterly-october-to-december-2017
59 https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/643001/lammy-review-final-report.pdf
60 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/380093/analysis-gender-custodial-sentences.pdf
61 https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-system-statistics-quarterly-december-2017
62 https://www.gov.uk/government/statistics/offender-management-statistics-quarterly-october-to-december-2017

- Cynyddu amrywiaeth y gweithlu fel y bydd staff carchardai a phrawf yn fwy cynrychiadol o'r menywod y maent yn eu gwasanaethu

*Crefydd neu gred*

89. Mae'r data isod a gyhoeddwyd yn y chwarterolyn Ystadegau Rheoli Troseddwyr[63] yn dangos y boblogaeth mewn carchardai menywod yn ôl crefydd ym Mawrth 2018. Rydym yn rhag-weld na fydd y strategaeth hon yn cael effaith anffafriol mewn perthynas â'r nodwedd warchodedig hon yng nghyswllt oedolion benywaidd sy'n droseddwyr.

| **Crefydd/cred** | **Poblogaeth Menywod ym Mawrth 2018** | **Poblogaeth Dynion ym Mawrth 2018** |
|---|---|---|
| *Yr Holl Gristnogion* | 2,156 | 37,683 |
| Anglicanaidd | *712* | *13,259* |
| Eglwys Rydd | *63* | *713* |
| Catholig Rhufeinig | *718* | *13,616* |
| Cristnogion eraill | *663* | *10,095* |
| Mwslimaidd | 250 | 12,597 |
| Hindwaidd | 9 | 370 |
| Sikh | 18 | 607 |
| Bwdhaidd | 61 | 1,456 |
| Iddewig | 12 | 468 |
| Grŵp crefyddol arall | 110 | 1,614 |
| Heb ei gydnabod | 0 | 10 |
| Dim crefydd | 1,174 | 24,537 |
| Heb ei gofnodi | 10 | 121 |

*Rhyw*

90. Mae'r Strategaeth Troseddwyr Benywaidd a'r gwaith sy'n gysylltiedig â hi wedi'u llunio ar gyfer menywod am fod ganddynt anghenion a nodweddion penodol ac am eu bod yn wynebu anfanteision penodol yn y system cyfiawnder troseddol y mae angen rhoi sylw iddynt.

91. Er ein bod yn cydnabod bod poblogaeth y carchardai dynion yn uchel, ni fydd ein cynigion ar gyfer gwella canlyniadau yn y ddalfa a'r gymuned a'r pwyslais ar ddargyfeirio troseddwyr o'r ddalfa yn canolbwyntio ar ddynion. Yn hytrach, canolbwyntir ar drawsnewid yr ystad carchardai dynion drwy Raglen Drawsnewid yr Ystad Carchardai er mwyn gwella a moderneiddio'r cyfleusterau. Mae cyfran fwy o droseddwyr gwrywaidd yn peri risg uchel[64] ac, ar gyfartaledd, maent yn cael dedfrydau hirach o garchar nag y mae troseddwyr benywaidd. Yn 2017, hyd cyfartalog y ddedfryd o garchar oedd 10.0 mis i oedolion benywaidd a 17.7 mis i oedolion gwrywaidd[65]. Roedd 72% o'r dedfrydau o garchar i fenywod yn chwe mis neu lai, o'i gymharu â 56% ar gyfer dynion[66]. O ganlyniad,

---

[63] https://www.gov.uk/government/statistics/offender-management-statistics-quarterly-october-to-december-2017
[64] Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2018). Supporting data tables: Female offender strategy. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/female-offender-strategy
[65] https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-system-statistics-quarterly-december-2017
[66] Ibid.

byddai cyfran y troseddwyr gwrywaidd sy'n addas i'w cyfeirio i ddewisiadau cymunedol yn lle'r ddalfa yn llai nag ar gyfer troseddwyr benywaidd.

92. Er bod cyfran lai o ddynion yn y system cyfiawnder troseddol yn dweud bod ganddynt anghenion cymhleth na menywod, rydym yn cydnabod bod dynion yn y system cyfiawnder troseddol sydd ag anghenion cymhleth, sy'n agored i niwed ac sydd ag angen cymorth. Mae 18% o garcharorion gwrywaidd yn dweud bod arnynt angen help i ddelio â phroblemau iechyd meddwl[67], mae 27% o garcharorion gwrywaidd yn dweud eu bod wedi'u cam-drin yn ystod eu plentyndod ac, o'r rhain, mae 24% yn dweud iddynt gael eu cam-drin yn rhywiol[68]. Mae dynion hefyd yn agored i'r perygl o hunan-niweidio yn y ddalfa. Yn 2017, y gyfradd ymysg dynion oedd 445 o ddigwyddiadau hunan-niweidio am bob 1000 o garcharorion mewn sefydliadau i ddynion (a chyfradd o 2,093 am bob 1000 o garcharorion mewn sefydliadau i fenywod)[69].

93. Cymerwyd nifer o gamau i helpu dynion a menywod agored i niwed yn y ddalfa i ddelio â'r problemau a wynebir gan garcharorion. Mae'r rhain yn cynnwys gwell cymorth i ddelio â materion sy'n ymwneud â hunan-niweidio a hunanladdiad drwy gyflwyno gwell hyfforddiant mewn carchardai i atal hunanladdiad a hunan-niweidio a chyllid grant i'r Samariaid at gynnal y cynllun Gwrandawyr, gwasanaeth cymorth gan gymheiriaid sy'n ceisio lleihau nifer yr achosion o hunanladdiad yn y carchar.

94. Nid ydym yn credu bod strategaeth ar gyfer troseddwyr benywaidd yn creu gwahaniaethu uniongyrchol gan nad yw dynion yn cael eu trin yn llai ffafriol na menywod yn gyffredinol yn y system carchardai, gan fod yr amrywiaeth o fentrau eraill sydd wedi'u rhoi ar waith i gwrdd ag anghenion troseddwyr gwrywaidd (mentrau ar gyfer y ddau ryw neu fentrau i garcharorion gwrywaidd) yn ddigonol.

95. Ceir buddsoddi sylweddol i drawsnewid yr ystad carchardai dynion yn Rhaglen Drawsnewid yr Ystad Carchardai sy'n ceisio gwella'r ystad carchardai a'i moderneiddio fwyfwy drwy ddarparu llety addas i'w ddiben. Yn rhan o'r rhaglen hon, adeiladwyd carchar newydd, Carchar Berwyn, yng Nghymru y flwyddyn ddiweddaf i gadw hyd at 2,106 o ddynion. Fodd bynnag, nid oes bwriad ar hyn o bryd i newid neu ehangu'r ystad carchardai menywod.

96. Oherwydd maint a chyfluniad yr ystad dynion o'i chymharu â'r ystad menywod, mae dynion yn cael mynediad yn rhwydd at amrywiaeth fawr o wasanaethau sydd heb fod ar gael neu heb fod yn hygyrch yn yr ystad menywod. Er enghraifft, mae troseddwyr benywaidd â Statws Cyfyngedig yn cael eu cadw ar hyn o bryd ar ddim ond dau safle yn yr ystad ac mae eu mynediad at wasanaethau priodol yn gyfyngedig. Fodd bynnag, yn achos troseddwyr gwrywaidd Categori A sy'n peri risg debyg i droseddwyr benywaidd â Statws Cyfyngedig, gellir eu dal mewn nifer o leoliadau fel eu bod yn cael mynediad yn rhwydd at yr holl wasanaethau priodol ac yn cael eu cadw'n agosach i'w cartrefi.

97. Hefyd mae nifer o raglenni ymyriadau'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf (wedi'u hachredu a heb eu hachredu) yn cael eu cynnig yn y ddalfa ac yn y gymuned sydd wedi'u teilwra'n benodol ar gyfer troseddwyr gwrywaidd. Ar hyn o bryd, mae 19 o raglenni ar gyfer dynion a dim ond 1 rhaglen wedi'i theilwra ar gyfer menywod yn benodol a gynigir yn y ddalfa yn unig. Mae'r 9 sy'n weddill yn addas i droseddwyr gwrywaidd a benywaidd. Mae'r rhaglenni i ddynion yn y system cyfiawnder troseddol wedi'u teilwra i ymdrin â'r problemau y maent yn eu hwynebu a'u hymddygiad troseddol. Maent yn cynnwys

[67] https://www.gov.uk/government/publications/gender-differences-in-substance-misuse-and-mental-health-amongst-prisoners--2
[68] https://www.gov.uk/government/publications/prisoners-childhood-and-family-backgrounds
[69] https://www.gov.uk/government/statistics/safety-in-custody-quarterly-update-to-december-2017

rhaglenni i helpu dynion a gafwyd yn euog o drosedd yn erbyn partner benywaidd a rhaglenni i ddynion a gafwyd yn euog o droseddau treisgar sy'n ceisio ymdrin â phroblemau cymhleth a phersonol sydd â rhan yn eu hymddygiad treisgar.

98. Yn yr un modd, mae troseddwyr gwrywaidd yn gallu derbyn nifer o wasanaethau penodol i'w math o drosedd nad ydynt ar gael i droseddwyr benywaidd. Er enghraifft, mae rhaglen troseddwyr rhyw ar gael i droseddwyr gwrywaidd, ond nid oes rhaglen o'r fath ar hyn o bryd ar gyfer troseddwyr benywaidd. Y rheswm am hyn yw bod y niferoedd yn yr ystad menywod yn fach iawn a bod cymhellion menywod i gyflawni troseddau rhyw yn wahanol iawn.

99. Yn ogystal â hyn, darperir nifer o wasanaethau drwy Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol sydd wedi'u teilwra i helpu dynion yn y system cyfiawnder troseddol. Er enghraifft, mae Cwmni Adsefydlu Cymunedol Northumbria wedi datblygu Gofyniad Gweithgarwch Adsefydlu penodol ar gyfer oedolion gwrywaidd ifanc sydd â phroblemau yng nghyswllt trais/ymosodedd. Mae'r Cwmni hefyd yn darparu cymorth i droseddwyr gwrywaidd sy'n ymwneud â gwaith rhyw a dynion sydd wedi dioddef trais domestig. Darpariaeth benodol i ddynion yw hon sydd ar wahân i'r gwasanaethau a ddarperir i droseddwyr benywaidd mewn cysylltiad â'r materion hyn. Hefyd, mae troseddwyr gwrywaidd yn rhanbarthau Cwmni Adsefydlu Cymunedol Llundain yn dilyn cwrs o'r enw 'Getting it Right' cyn eu rhyddhau o'r ddalfa sy'n eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau ac yn ymateb yn hyblyg i wahanol anghenion y carcharorion ac yn cynnwys elfennau ar lythrennedd ariannol, sicrhau a chadw tenantiaeth a gwneud cais am gyrsiau coleg ymhlith mathau eraill o gymorth.

100. At hynny, er bod y strategaeth yn cynnwys camau i ddatblygu opsiynau ar gyfer darparu canolfannau preswyl i fenywod, bydd Y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn parhau i sicrhau llety sefydlog ar ôl eu rhyddhau o'r ddalfa i ddynion yn ogystal â menywod. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) yn cydweithio i ddarparu strategaeth ar y cyd i wella mynediad at dai i'r rheini a gaiff eu rhyddhau o'r carchar. Yn rhan o'r strategaeth ar y cyd, mae gwaith wedi dechrau i ddatblygu prosiect peilot i helpu pobl i gael a chadw tenantiaethau ar ôl eu rhyddhau o'r carchar.

101. Drwy ddiwygio carchardai, bydd Y Weinyddiaeth Cyfiawnder hefyd yn treialu mesur perfformiad yn 2018/19 i ddal carchardai yn atebol am nifer y carcharorion sydd mewn llety diogel ar ôl eu rhyddhau. Rydym hefyd yn ymchwilio i opsiynau ar gyfer ehangu'r ystad Mangreoedd a Gymeradwywyd i gwrdd â'r galw yn y dyfodol ac i ymateb i fylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer llety. Rydym wedi ehangu cwmpas y cymhwystra i dderbyn Gwasanaethau Cymorth a Llety Mechnïaeth i gynorthwyo troseddwyr risg isel a ryddheir o'r carchar heb lety i fynd iddo er mwyn helpu mwy o garcharorion i gael llety ar ôl eu rhyddhau. Rydym yn cydweithio â MHCLG i ymchwilio i ffyrdd i'r Cynlluniau Peilot Tai yn Gyntaf wneud rhagor i sicrhau bod y troseddwyr hynny ag anghenion cymhleth a ryddheir o'r ddalfa yn gallu sicrhau tai priodol.

102. Rydym hefyd yn cydnabod bod angen cymorth ar ddynion a menywod yn y system cyfiawnder troseddol i fod yn rhieni a bydd Y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn parhau i gynorthwyo dynion yn y ddalfa sy'n dadau. Mae Llywodraethwyr yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr gwasanaethau i deuluoedd i gwrdd ag anghenion carcharorion a nodwyd, yn cynnwys meithrin perthnasoedd ar gyfer carcharorion nad ydynt yn gweld eu teulu/plant. Mae darparwyr gwasanaethau i deuluoedd yn ymgysylltu â thadau ac yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am eu plant a'u perthnasoedd fel y bo'n briodol. Mae hyn yn cynnwys darparu gweithgareddau i dadau ymgysylltu â'u plant drwy nifer o gyfleoedd fel Tadau Llyfr Stori lle mae tadau'n recordio storïau a gaiff eu postio at eu plant er mwyn iddynt glywed eu tad yn dweud stori iddynt.

103. Darperir dysgu i deuluoedd hefyd lle mae carcharorion a’u teuluoedd yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu strwythuredig fel cyrsiau rhianta a chyllidebu a rheoli arian sydd â’r bwriad o feithrin gallu tadau i rianta a darparu ar gyfer eu teulu. Mae’r Weinyddiaeth Cyfiawnder hefyd yn datblygu mesurau perfformiad newydd a gaiff eu treialu yn 2018 i’w rhoi ar waith wedyn. Bydd y rhain yn cynnig canllawiau hanfodol ar gyfer darparu gwasanaethau mwy cyson i wella perthnasoedd rhwng carcharorion a’u plant fel ymweliadau estynedig a diwrnodau i’r teulu ar draws yr ystad carchardai.

104. Mae rhywfaint o dystiolaeth bod dull seiliedig ar rywedd sy’n ymdrin ag achosion troseddu gan fenywod, yn cynnwys cam-drin a thrawma blaenorol, yn fwy effeithiol na dull niwtral o ran rhywedd wrth adsefydlu troseddwyr benywaidd a delio â’u hanghenion sydd yn aml yn gymhleth[70]. Mae’r strategaeth a’r gwaith sy’n gysylltiedig â hi yn ceisio darparu cymorth ychwanegol i ddelio ag anghenion cymhleth menywod, eu dargyfeirio oddi wrth y ddalfa a gwella canlyniadau. Gellir cyfiawnhau hyn ar sail y nifer mawr o anfanteision a wynebir gan fenywod yn y system cyfiawnder troseddol. Mae carcharorion benywaidd yn fwy tebygol na charcharorion gwrywaidd o fod wedi cael eu cymryd i ofal, o fod wedi cael eu cam-drin, ac o fod wedi gweld trais yn y cartref pan oeddent yn blant[71]. Mae carcharorion benywaidd sydd wedi’u cam-drin fel plant yn fwy tebygol o roi gwybod iddynt gael eu cam-drin yn rhywiol (67%) na charcharorion gwrywaidd sydd wedi cael eu cam-drin (24%)[72]. Mae’r strategaeth ac, yn benodol, y sylw i ddulliau cyfannol a darpariaeth gymunedol yn ceisio meithrin hunan-barch yn y menywod hyn, a all fod ar lefel isel yn aml, gan y bydd nifer mawr ohonynt wedi cael eu hymyleiddio drwy eu ffyrdd caotig o fyw a’u profiadau mewn plentyndod, a hybu agweddau meddwl rhag-gymdeithasol.

105. Felly mae’r strategaeth yn fodd i gyflawni’r nod dilys o ddargyfeirio menywod, lle y bo’n briodol, oddi wrth y ddalfa lle mae canlyniadau i fenywod yn waeth fel arfer nag i ddynion, a galluogi ac annog troseddwyr benywaidd i drechu neu leihau’r anfanteision hyn a chwrdd â’r anghenion rydym wedi’u nodi.

106. Bydd troseddwyr gwrywaidd yn parhau i gael cymorth drwy brosesau a mecanweithiau presennol i ymdrin â’u hanghenion tra byddant yn y system cyfiawnder troseddol. Mae’r rhain yn cynnwys dyletswydd ar yr heddlu i asesu risg pawb sy’n dod i’w dalfeydd a sicrhau bod unrhyw ffactorau sy’n eu gwneud yn agored i niwed ac unrhyw anghenion arbennig yn cael eu nodi a’u diwallu lle y bo modd, yn cynnwys iechyd corfforol a meddyliol, nodweddion gwarchodedig (oed, rhywedd, anabledd etc.), anableddau dysgu, dioddefwyr trais domestig, dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol etc. Mae nifer o lwybrau atgyfeirio gwirfoddol ar gyfer derbyn cyngor ac arweiniad. Er enghraifft, ceir cynghorwyr cyffuriau ac alcohol mewn rhai dalfeydd. Mae gofynion statudol hefyd ar gyfer categorïau penodol fel y ddyletswydd i ddarparu oedolyn priodol i gynorthwyo pobl ifanc neu oedolion agored i niwed. Bydd y gwersi a ddysgir o’n gwaith gyda throseddwyr benywaidd yn ein helpu i ddatblygu polisi ar gyfer cohortau eraill.

*Cyfeiriadedd rhywiol*

107. Mewn perthynas â chyfeiriadedd rhywiol, nid ydym yn credu y bydd y strategaeth troseddwyr benywaidd yn cael unrhyw effeithiau anffafriol. Mae data am gyfeiriadedd rhywiol sy’n ymwneud yn benodol â throseddwyr benywaidd yn brin ac nid yw’r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn eu cyhoeddi.

---

70 Er enghraifft, Gobeil, R., Blanchette, K., a Stewart, L. (2016). A Meta-Analytic Review of Correctional Interventions for Women Offenders: Gender-Neutral Versus Gender-Informed Approaches.

71 https://www.gov.uk/government/publications/prisoners-childhood-and-family-backgrounds

72 Ibid.

108. Fe gyhoeddir ffigurau cyffredinol am garcharorion: mae cyfeiriadedd rhywiol sydd wedi’i hunangofnodi gan garcharorion yn debygol o fod wedi’i dangofnodi. Mae hyn wedi’i adlewyrchu’n rhannol yn y gyfradd datgan o 91.6% (yn hytrach na 100%). O’r rheini a ddatganodd eu cyfeiriadedd rhywiol, cofnododd 97% o garcharorion eu bod yn Heterorywiol (71,901 o garcharorion), tra oedd 2.6% (1,954) wedi cofnodi eu bod yn Hoyw/ Lesbiaidd/ Deurywiol neu Arall (LGB).[73]

*Priodas / partneriaeth sifil*

109. Mewn perthynas â statws priodasol/partneriaeth sifil troseddwyr benywaidd, rydym yn credu na fydd y strategaeth troseddwyr benywaidd yn cael unrhyw effeithiau anffafriol. Yn wir, byddai dargyfeirio menywod o’r system cyfiawnder troseddol yn cael effaith gadarnhaol ar briodasau a phartneriaethau sifil.

110. Rydym yn cydnabod bod angen cadw rhai menywod yn y ddalfa. Mae’r carchar yn rhoi straen ar berthnasoedd drwy wahanu cyplau a chyfyngu’r cyswllt rhyngddynt i ymweliadau, llythyrau a galwadau ffôn. Er mwyn lliniaru effaith yr anfanteision hyn, rydym yn gweithio i gyflwyno atebion ar ffurf technoleg fodern fel cyfrifiaduron llechen mewn celloedd a fyddai’n rhoi mwy o gyfleoedd i fenywod gadw mewn cysylltiad â’u partneriaid a theuluoedd.

111. Yn ogystal â hyn, mae gwaith wedi dechrau ar weithredu argymhellion adolygiad Farmer ar gynnal cysylltiadau teuluol yn y ddalfa o dan y Rhaglen Diogelwch Carchardai a’u Diwygio. Rydym yn darparu ar gyfer gwell cyfathrebu rhwng aelodau teuluoedd ac yn hwyluso diwrnodau teulu trefnedig ac adeiladol ochr yn ochr â chyrsiau a rhaglenni i hyrwyddo ymgysylltu â theuluoedd yn yr ystad carchardai. Dyfarnwyd contract newydd am wasanaethau i deuluoedd ar draws yr ystad carchardai menywod yn Hydref 2017. Mae’r contract hwn yn helpu carchardai yn yr ystad menywod i ddatblygu gwasanaethau arloesol i hybu ymgysylltu mewn teuluoedd.

112. Roedd adolygiad Farmer yn 2017 yn canolbwyntio ar yr ystad carchardai dynion. Rydym yn gweithio gyda’r Arglwydd Farmer i gwmpasu adolygiad pellach i adeiladu ar sail canfyddiadau’r adroddiad cynharach a fydd yn edrych yn benodol ar yr angen am ddull seiliedig ar rywedd i helpu troseddwyr benywaidd i gynnal cysylltiadau teuluol.

**Sut rydych wedi ystyried Mesur y Gymraeg 2010 mewn perthynas â’r cynnyrch ac yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM?**

113. Rydym wedi ystyried ein cyfrifoldebau o dan Fesur y Gymraeg 2010 yn rhan o’r cyfathrebu ynghylch y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd. Ein bwriad yw sicrhau y bydd y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd yn cael ei chyhoeddi yn Gymraeg hefyd yn fuan ar ôl rhyddhau’r strategaeth yn Saesneg.

**Casgliadau Polisi a Chydraddoldeb**

114. Rydym wedi ystyried a fydd y strategaeth troseddwyr benywaidd yn codi’r posibilrwydd y bydd person yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd ei nodweddion gwarchodedig ac wedi nodi lle gall y strategaeth hyrwyddo cyfle cyfartal y rheini sy’n rhannu nodweddion gwarchodedig.

115. Oherwydd natur rywedd-benodol y strategaeth a’r prosiectau sydd ynddi, bydd effaith gadarnhaol ar fenywod. Rydym yn credu bod cyfiawnhad am hynny ar sail y dystiolaeth

[73] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/663390/noms-offender-equalities-annual-report-2016-2017.pdf

sy'n dangos bod gan droseddwyr benywaidd anghenion sy'n wahanol ac yn aml yn fwy cymhleth na rhai dynion ac a fyddai'n cael eu diwallu'n well drwy ddull seiliedig ar rywedd.

116. Rydym wedi nodi anfanteision penodol a brofir gan y boblogaeth o oedolion benywaidd sy'n droseddwyr ac mae'r strategaeth hon yn ffordd gymesur i gyflawni'r nod o alluogi ac annog y troseddwyr hyn i leihau'r anfanteision hyn.

117. Nid ydym yn credu y bydd dynion yn cael eu trin yn llai ffafriol na menywod gan fod darpariaeth ddigonol o gymorth ar gael i ddiwallu anghenion troseddwyr gwrywaidd. Byddant yn parhau i gael cymorth drwy brosesau a mecanweithiau presennol i gwrdd â'u hanghenion yn ystod eu cyfnod yn y system cyfiawnder troseddol.

118. Rydym wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo'r agwedd cyfle cyfartal ar y ddyletswydd cydraddoldeb mewn perthynas â'r holl wahanol ddiwygiadau. Rydym hefyd wedi ystyried yr angen i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng oedolion gwrywaidd a benywaidd sy'n droseddwyr, yr angen i gymryd camau i roi sylw i'w hanghenion rhywedd-benodol, yr angen i hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at fenywod a'r angen i hybu cyfranogi gan fenywod mewn bywyd cyhoeddus a gweithgareddau a all helpu i'w hadsefydlu.